# Y Fan a'r Lle

Papur Bro Aberhonddu a'r Cylch

Mai 2021 Rhifyn 95

# Dathlu 25 mlynedd Y Fan a'r Lle

**1996 - 2021**



Y Bwrdd Golygyddol gwreiddiol



Bwrdd Golygyddol dathlu'r deg

## I ddathlu chwarter canrif o'r 'Fan a'r Lle'

Criw bach a oedd yn frwd o blaid yr iaith
A ddaeth ynghyd i lawnsio'r cwch i'r dŵr;
Er peth petruster, mentro ar y daith
Mewn gobaith llwyddo, eto ddim yn siwr.
A fyddai'r cwch yn hwylio ar ei hynt
Ar fôr digynnwrf, ar ryw fordaith hir,
Neu fyddai cryfder a rhyferthwy'r gwynt
Yn darnio'r llestr brau cyn dod i dir?
Ond ni raid poeni; hwyliodd yn ei flaen
Am chwarter canrif i gartrefi'r fro;
Hawliodd ei blwy' yn fuan, ac roedd graen
Ar gynnwys coeth ei dudalennau o;
A bellach mentrodd cwch 'Y Fan a'r Lle'
Ar draws y byd, ar ddyfroedd llyfn y Wê.

*John Meurig Edwards*

Sian Reeves, Gwerfyl Minchin
Richard Morris, Branwen Griffiths



Y Bwrdd Golygyddol heddiw

# Diolch!

Llongyfarchiadau mawr i bawb sy wedi cyfrannu at lwyddiant ein papur bro. Mae'n anrhydedd i mi gael rhoi'r gair o ddiolch atoch, gan mai fi yw'r unig un sy wedi bod ar y bwrdd golygyddol ers y dechrau ac yn dal i fod wrthi. Rydw i wedi cael yr anrhydedd o weithio ochr yn ochr â chewri, sy' wedi rhoi gymaint o'u hamser a'u hegni. Er mai fi yw'r un sy wedi bod ynghlwm yr hiraf, y lleiaf o'r gwaith dw i wedi gwneud, ond mae rhoi'r ddau rifyn yma at ei gilydd wedi bod yn anrhydedd o'r mwya. Hoffwn ddweud diolch i Meredydd am ei gyfraniad fel gohebydd o'r dechrau hefyd ac i JL Stephens Talybont, Brecon Motors a Bulwark House am hysbysebu yn y papur ers y dechrau, i gefnogi'r iaith yn fwy na dim. Does neb wedi cael budd ariannol o'r papur, ond pob un wedi cael budd o falchder a chyfeillgarwch arbennig. Mae rhaid i ni gydnabod cyfraniad anhygoel y diweddar Gruff Roberts; hebddo ni fyddai'r papur wedi llwyddo, ac hefyd i Sian Reeves a Gwenno Hutchinson, sy' wedi bod yn weithgar iawn yn cydweithio fel golygyddion. Mae pob un o'r gwirfoddolwyr sy' wedi teipio, cyfieithu, prawfddarllen, ysgrifennu erthyglau/croeseiriau, y gohebwyr, y dosbarthwyr, y bwrdd golygyddol ynghyd â'r hysbysebwyr yn haeddu clod am lwyddiant y papur. Mae'r ddau rhifyn nesa' yn dilyn rhai o straeon a cholofnau gynt.

*'Rydyn ni'n ysgrifennu i flasu bywyd dwywaith:
yn y foment ac wrth gofio'r gorffennol'(Anais Nin)*

Mae 'Y Fan a'r Lle' wedi cyrraedd penblwydd 25, ond os hoffech chi sicrhau ei ddyfodol, cysylltwch â ni!

**Y Fan a'r Lle 25 1996-2021**

- 1995 Cyfarfod yn Ysgol Llanfaes i sefydlu diddordeb
- Mawrth 1af 1996 - Y papur yn cael ei lawnsio trwy'r B&R
- 1997 Agor Theatr Brycheiniog
- Mawrth 1af 1999 - Ysgol y Bannau newydd yn agor
- 1999 Cyngerdd Côr Godre'r Aran
- 2000 Calendr y Mileniwm
- 2001 Cyngerdd Côr Meibion Llanelli
- 2002 Noson gyda Meg Stevens
- 2003 Rhifyn 25 - Lliw ar y papur (Enw a Logo) Cyngerdd Côr Godre'r Aran
- 2004 Hwyrnos gyda Roy Noble
- 2005 Cyngerdd Cordydd
- 2006 10 mlwydd oed - Lliw eto
- Rhifyn 40 Newid i ffurf llyfryn
- Rhifyn 60 'Nôl yn y B & R 'Canmol dy fro a thrig ynddi'
- 2018 Bu farw Gruff Roberts, golygydd y papur
- 2019 Gweddnewidiad eto i'r papur, printiwyd gan Bobbins Print
- 2020 Covid 19 yn taro
- 2021 Y Fan a'r Lle yn cyrraedd 25 mlwydd oed

ebost@yfanarlle.cymru

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

CYMRAEG

Golygydd y rhifyn hwn: Ydwena Jones
Gosodwyd gan Bethan Price ac Ydwena Jones

# Anrhydeddu Kirsty Williams

gan William Denston Powell

Rwyf wedi gweithio gyda Kirsty Williams dros yr ugain mlynedd diwethaf ac mi wn y bydd hi'n anodd iawn i unrhyw un gymryd yr awenau ar ei hôl. Ond nid dyma pwrpas y teyrnged yma, yn hytrach rwyf eisiau tynnu eich sylw at yr hyn mae Kirsty wedi ei gyflawni yn ystod ei gyrfa hir.

Yn 1997 chwaraeodd Kirsty rhan bwysig yn y refferendwm yn yr ymgyrch fuddugol i sefydlu'r Senedd. Ar ôl hynny, fe aeth Kirsty ymlaen i gael ei dewis i frwydro'r sedd ym Mrycheiniog a Maesyfed ac fe'i hetholwyd i'r Senedd yn 28 oed.

Ar ddechrau'r mileniwm fe chwareuodd Yr Arglwydd Livesey o Dalgarth (mentor pwysig i'r ddau ohonom) ran allweddol ym mywyd Kirsty, gan mai fe a gyflwynodd hi yw darpar wr - y ffermwr Richard Rees, Pen-Crug, ger Aberhonddu - yn sioe Gwenddwr. O hynny ymlaen roedd siroedd Brycheiniog a Maesyfed yn ddi-os yn mynd i chwarae rhan bwysig ym mywyd Kirsty.

Adnabyddwyd ei thalentau yn syth, a chafodd ei dewis fel cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwnaeth argraff mawr o'r dechrau, ac yn 2006 dyfarnwyd hi'n 'Aelod i Wylio' ym Mlwyddlyfr Gwobrau Gwleidyddol Cymru.

Yn 2008, etholwyd Kirsty yn arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac yn ei hetholiad cenedlaethol cyntaf yn 2011, fe ymunodd â'r tîm ym Mae Caerdydd fel AS dros Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fe weithion ni'n agos ar sawl ymgyrch dan arweiniad y gymuned ar draws Powys, yn enwedig i sicrhau nad oedd ysbytai Bronllys, Llanidloes a Thref-y-Clawdd yn cau. Mae'n galonogol bod Bronllys nawr yn allweddol yn yr ymdrech i frechu ein brodorwyr yn ne y sir. Yn ogystal â hyn, yn 2014-2015 ymgyrchon ni yn llwyddiannus, eto gyda chefnogaeth y gymuned, i gadw Ysgol Uwchradd Gwernyfed ar agor.

Yn Rhagfyr 2012, ennillodd Kirsty wobr 'Aelod y Flwyddyn' ITV ac anrhydeddwyd hi gyda CBE ar gyfer ei gwasanaeth cyhoeddus a gwleidyddol. Roedd hi'n braf gweld Kirsty yn cael ei gwobrwyo am ei gwaith caled dros ein hardal, a'n gwlad.

O ran llwyddiannau cenedlaethol, roedd Kirsty yn flaengar yn ymgyrchu dros 'Mwy o Nyrsus' – ymgyrch i ragnodi isafswm lefelau staffio yn ysbytai Cymru. Yn 2016, daeth y ddeddf i rym!



Daliodd Kirsty ymlaen i'w sedd yn 2016, er gwaeddaf etholiad gwael i'r parti, gyda thyfiant i'w mwyafrif. Fel yr unig Dem Rhydd yn ôl yn y Senedd, ymunodd Kirsty â'r Llywodraeth gyda chytundeb efo'r Blaid Lafur. Ar ôl blynyddoedd o fod yn yr wrthblaid, yn gofyn y cwestiynau caled, nawr roedd hi'n amser i Kirsty ymuno â'r Llywodraeth fel y Gweinidog Addysg.

Mae record Kirsty yn amlwg i bawb! Mae Kirsty wedi llywddo i leihau'r niferoedd o ddisgyblion ifanc mewn un dosbarth, i gynyddu'r nifer o nyrsus, a sicrhau bod y gyfraith yn gwahaniaethu o blaid cadw ysgolion gwledig ar agor.

Yn ystod y pandemig, roedd Kirsty yn flaengar yn ei chefnogaeth o athrawon a disgyblion. Gweithredodd Kirsty yn ddi-oed i roi £11miliwn i un ochr er mwyn gwneud yn siwr nad oedd un plentyn yn mynd heb ginio dros y gwyliau.

Er bod Kirsty yn ein gadael ar ôl yr etholiad yma, mae hi'n gadael etifeddiaeth chwildroadol ar ei hôl. Bydd y cwricwlwm newydd yn gyfle i newid y ffordd mae disgyblion yn ymgysylltu ag addysg, yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus a gwella eu cyfleoedd bywyd am flynyddoedd i ddod.

Rwy'n falch fy mod i wedi gweithio ochr yn ochr â Kirsty, ac rwy'n dymuno'r gorau iddi hi am y dyfodol. Ar ol 23 mlynedd ym myd gwleidyddaeth, nawr fe fydd cyfle iddi ymlacio a mwynhau bywyd adre gyda'i theulu.

**Gol: Diolch i chi, Kirsty am eich gwaith caled dros Frycheiniog a Maesyfed.**

KR Keppe Rofe Solicitors/Cyfreithwyr
AT EICH HOLL ANGHENION CYFREITHIOL
Ffôn: 01874 624627
Rhif brys: 07967 109516
11, Ship Street Aberhonddu
Powys LD3 9AB

BM Brecon Motors
Brecon Motors, Aberhonddu
Eich deliwr MG lleol
Ceir newydd ac ail-law
Gwasanaethau ac MOT
ar bob math o geir
Ffôn: 01874 611721
www.breconmotors.co.uk

WELSH DELIGHTS
Stryd Fawr, Aberhonddu
Ffôn: 01874 610375
Cardiau Cymraeg a nwyddau,
Melysion, Cacennau cartref

# Profiad Cofid Dr.Diane

"Daw eto haul ar fryn" medd y dywediad a dyna yw'n gobaith ni i gyd ar ddiwedd ail don y pandemig. Bu'r flwyddyn ola' yn heriol i ddweud y lleia i bawb yn y Gwasanaeth Iechyd. Doedd neb yn barod am yr hyn oedd o'n blaen. Bu gwirfoddolwyr yn arbennig yn eu cefnogaeth ohonom fel meddygfa.

I fi yn bersonol, mis Ionawr 2021 oedd y mwyaf diflas pan o'n i'n gweld y rhifau yn codi a dim diwedd mewn golwg. Bu'r flwyddyn yn galed ond mae wedi ein gwneud yn glosiach fel meddygfa. Am y mis neu chwech wythnos gynta nes i wirfoddoli i weithio yn adeilad y Tanerdy i weld unrhyw glaf oedd angen apwyntiad wyneb yn wyneb. Bob dydd byddwn yn gwisgo fy "scrubs" ac ar fy nhraed "crocs". O leia roedd yn rhwydd yn y bore, dim penderfynu beth i'w wisgo heddi ac a oedd y sgidie hyn yn mynd da'r wisg hynna – un positif o'r pandemic!

Y diwrnodau hynny byddwn 'mond yn gweld cydweithwyr drwy'r ffenest. Gallai fod yn unig a doeddwn wir heb sylwi pa mor unig tan i fi fynd nôl i'r prif adeilad a chlywed sŵn pobol eraill o gwmpas. 'Roedd yr wythnosau cynnar hyn yn eitha' ofnus i ddweud y gwir – ofn dal covid a'i roi i rywun arall cyn sylweddoli. Rhaid oedd newid pob llawr a stôl fel ein bod yn gallu glanhau yn hawdd. Dyna pam mae ein 'stafelloedd aros ar newid wedd. Rhaid oedd cael gwared ar garpedi a phopeth na allai gael sychad 'da chadachau. Os fydde ni yn gweld claf gyda symptomau covid, roeddem yn gwneud glanhad ddwfn gyda hylif o dabledi clorin. Mae hwnnw'n gwneud eich ceg a'ch llygaid yn sych. Rhwng bob claf rydym yn dal i sychu pob arwyneb, sy'n cymryd amser ac yn hyn o beth 'rwy'n siwr nad awn ni fyth nôl i apwyntiad deng munud.

Buon ni'n ffodus wedyn i'r Bwrdd Iechyd roi ystafell yn Ysbyty Aberhonddu i alluogi meddyg teulu weld cleifion oedd â symptomau covid. Bu rhai o 'nghyd weithwyr yno am fisoed yn eu tro a'r gweddill ohonom yn delio 'da phopeth arall. Eto roeddem mewn timoedd ond hefyd roedd na rhyw agosatrwydd rhyfedd gyda phawb yn tynnu ati gilydd er lles y gymuned. 'Rwy'n cofio tynnu llun ar fy ffôn o gyfarfod cynta'r partneriaid ar Zoom a dweud ei fod yn hanesyddol. Bach y meddyliais y bydden ni dal yn gwneud cyfarfodydd ac addysg fel hyn dros flwyddyn yn ddiweddarach.

Fe wnaeth y GIG ddatblygu meddalwedd addas i feddygon teulu wneud ymgynghoriad fideo sy'n mynd yn syth i record cyfrifiadurol y claf. Mae'n hynod fel mae hyn wedi ein tynnu yn ddidrugaredd i'r byd modern.

Rhaid i fi ddweud peth hanes am y dillad a'r PPE. Mae'r scrubs 'ma yn chwyslyd iawn yn yr haf ac yn oer yn y gaea'. Gyda ffedog blastig ar ben yn aml haf diwetha' roeddwn yn chwys stecs a 'ngwallt yn sticio i fy nhlacen. Un diwrnod poeth fi oedd yn gwneud galwadau cartre'. Cyrhaeddais un lle tua un y prynhawn a roedd deial fy nghar yn dweud fod hi'n 34 gradd selsiws. Des mas o'r car a dechrau gwisgo'r PPE – roeddwn yn methu cael menig ar fy nwylo am fy mod yn chwysu sut gymaint. Hawdd oedd mynd yn sychedig felly, ac yn aml byddwn yn sylwi tua 5 o'r gloch mod i heb fod i'r tŷ bach drwy'r dydd. Bydde unrhyw feddyg yn dweud wrthoch chi, nad yw hynna'n beth iach o gwbwl!

Am fisoedd pan o'n i'n dod adre o'r gwaith roedd Catrin yn ffenest ei 'stafell yn tynnu llun ohona i yn y PPE. Doedd dim syniad 'da fi pam wnaeth hi hyn, ond ar ddiwrnod fy mhenblwydd ddiwedd 2020 anfonodd fideo yn crynhoi'r lluniau i ddangos pa mor falch oedd hi o'r gwaith roeddwn yn ei wneud.

Rhaid i fi gyfaddef fe wnaeth hyn i fi lefen achos fy ngofid mwya' yn ystod y pandemig oedd dod â salwch adre i'r teulu o achos fy ngwaith i. Bellach 'rwy'n sylweddoli mae jest mor hawdd i fi ddal covid yn siopa ag yw e i'w ddal yn y gwaith.

Yn fuan roedd yn amlwg fod yn rhaid newid llawer o fewn ein gweithle. Drwy lwc a bendith roedden ni wedi bod yn gwneud "triage" ar y ffôn ers rhyw flwyddyn cyn y pandemig, felly roedd system yn ei lle i ddelio da sut i benderfynu pwy oedd angen eu gweld wyneb yn wyneb. Bron yn syth, aethom i dimau yn y gwaith a doedden ni ddim yn cwrdd a'n gilydd, ddim yn rhannu drysau mynediad na thai bach ac i ddweud y gwir yn gweithio wedi ynysu. Fe wnaethon ni hyn fel bo' ton o weithwyr eraill ar gael tasau rhai yn mynd yn sâl. Fel pob gweithle arall, roedd gyda ni staff oedd angen hunan ynysu ar adegau ac eraill oedd yn cysgodi oherwydd cyflwr iechyd eu hunain.

**Diolch i'r gymuned oll am eich cefnogaeth drwy'r cyfan.**



# Myfyrio ar gyfyngiadau Cofid – Blwyddyn yn ddiweddarach

gan William Denston Powell




Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ces i brofiad o Cofid-19. Roedd hyn yn amser heriol iawn i mi, ac mae wedi cael effaith trawsnewidiol ar fy mywyd. Roeddwn yn credu mod i ar fin gwella ymhen wythnos o gael gwres a symptomau Cofid a chymryd i'm gwely ar Fawrth 18ed 2020. Mewn gwirionedd roedd fy mrwydr gyda'r glefyd ar fin dechrau o ddifrif. Erbyn yr wythnos ganlynol roedd cyfyngiadau Cofid wedi dod i rym, er nad oeddwn yn llawn ymwybodol ohono ar y pryd. Ar ôl teimlo ychydig yn well wythnos ar ôl i symptomau Cofid ddechrau (gwres, blinder, diffyg blasu ac arogli) gwaethygodd y salwch ar fore Mawrth 26ain, a ches brofiad o ddiffyg anadlu a lefelau ocsigen isel. Erbyn y prynhawn plediodd Ria, fy ngwraig, fod rhaid i mi weld fy noctor (Dr Paul Barnes – Grwp Meddygaeth Crughywel). Dwedodd e y byddai'n rhaid i mi fynd i'r ysbyty ar unwaith. Wedi i mi gael fy nerbyn i Ysbyty Nevill Hall dan ofal yr arbenigwraig Ami Jones a'i thîm yn yr uned gofal dwys (ICU), erbyn hanner nos roeddwn yn anadlu gyda chymorth peiriant anadlu mewn coma yr ysgogwyd yn feddygol.

Nid wyf yn cofio llawer am y 18 dydd cyntaf yn yr ysbyty, dim ond am freuddwydion erchyll a theimladau arall-fydol. Ond yn y tair wythnos canlynol, gyda chymorth yr arbenigwyr, meddygon, nyrsus, staff yr ysbyty a thîm gwych o ffisiatherapyddion, mi ges gyfle i ail-fyw fy mywyd unwaith eto – diolch i'n Gwasanaeth Iechyd gwych. Ar Fai 7ed es adref at fy nheulu, a mi gofiaf am byth yr ymadawiad rhyfeddol ces i gan y staff cyn dychwelyd adref o Ysbyty Nevill Hall. Roedd hi nawr yn amser i mi fyfyrio ar fy mhrofiadau ac ail-ymuno â chymdeithas oedd yn gorfod byw o dan gyfyngiadau Cofid.


Mi wellais yn raddol o effeithiau Cofid trwy fynd am dro yn gyson gyda'r teulu o gwmpas y fferm a'r wlad o amgylch fy nghartref. Roedd fy hyder yn tyfu o ddydd i ddydd. Roedd chwarae tenis gyda fy meibion ar fuarth y fferm yn gymorth i ddatblygu fy sgiliau corfforol.

Roeddwn yn lwcus i gael cefnogaeth therapyddion galwedigaethol (OTs) Powys ynghŷd ag ymweliadau gan dîm o nyrsus cymunedol, gyda chymorth hyfforddwyr personol o Casnewydd Fyw (Newport Sports Village) o dan reolaeth Ysbyty Sant Woolos, Casnewydd.

Ers mis Awst, gyda chymorth Gareth Davies a'i gyd-weithwyr yn TaDSCA (Talgarth and District Sports and Community Association), dechreuais redeg o amglych maesydd chwarae Y Brenin George V, er mwyn cryfhau fy ngallu corfforol digon i wneud y '5K Parkrun'. Mae gwneud hyn wedi bod yn werthfawr tu hwnt er mwyn gwella fy iechyd corfforol a'm iechyd meddwl hefyd. Roeddwn yn casau rhedeg trawsgwlad yn yr ysgol ond mae fy ymdrechion diweddaraf wedi fy ngwneud yn berson cryfach ac iachach nag erioed.

Cefais yr un lefel o gefnogaeth a charedigrwydd gan ffrindiau, cyd-weithwyr a gwleidyddion ag y ces i dan ofal proffesiynol clinigwyr GIG. Derbyniais nifer enfawr o gardiau, llythyron a negeseuon yn ystod yr amser yma. Cefais gefnogaeth anhygoel gan fy nheulu, ffrindiau, cymdogion ac aelodau o'r gymuned. Ni fyddaf byth yn anghofio hyn.

Ar ôl profi'r gofal amhrisiadwy a gefais dan ofal ein GIG mae'n hollol glir i mi bod rhaid i ni werthfawrogi ein nyrsus, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'r eithaf. Ddim yn unig trwy guro dwylo mae gwneud hyn, ond rhaid i ni weithredu ar y gwersi mae byw gyda Cofid-19 wedi eu dysgu i ni. Rhaid gwneud hyn gyda hyder a meddylfryd bositif er mwyn gwneud adfywiad yn flaenoriaeth. Rwyf wedi profi effeithiau Cofid yn bersonol ac wedi dod allan yr ochr arall yn gryfach ac yn fwy ffit nag erioed. Nawr yw'r amser i mi roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, y gwasanaethau cyhoeddus oedd yno i'm teulu a minnau pan roedden eu hangen. Rwy'n benderfynol o wneud hyn os ydwyf yn gael fy ethol a'i peidio.



# Newyddion y Llannau

## Aberhonddu

Stori Aberhonddu

Mae Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliant Aberhonddu wedi cael ei ffurfio gan grŵp o bobl a chyrff lleol i gofnodi hanesion am drefteadaeth, diwylliant a'r celfyddydau yn Aberhonddu.

Os am weld beth sy'n gwneud Aberhonddu yn lle mor arbennig, gallwch ymweld â'r wefan ddwyieithiog:

*storiaberhonddu.cymru/breconstory.wales*

i gael cipolwg ar Aberhonddu'r gorffennol a'r presennol. Mae'r adnodd digidol hwn yn wych ar gyfer pobl leol sydd am wybod am eu bro, ac i ymwelwyr â'r dref. Mae pwyslais ar y gymuned leol, ac mae arweinwyr y prosiect yn awyddus fod pobl leol yn rhan amlwg ohono, drwy rannu storïau, lluniau a fideos, a thrwy helpu eraill i ddweud eu stori.

Mae'r cynllun wedi bod yn datblygu dros ddwy flynedd, gyda chymorth grant gan Powys Arwain, a chefnogaeth Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliant Aberhonddu, gyda Chadeirlan Aberhonddu fel partner. Syniad un o'r trigolion lleol, Liz Jeffreys, oedd hwn, a hi sy'n arwain datblygiad a chyllido'r cynllun. Cafwyd cefnogaeth wych hefyd gan Gadeirydd y Rhwydwaith, sef Dr. Paul Shackerley, Deon y Gadeirlan.

Mae'r trefnwyr yn awyddus i ddenu mwy o wirfoddolwyr, yn enwedig siaradwyr Cymraeg, i sgrifennu ac adrodd storïau ac i gyfieithu. I ddarllen y storïau sydd eisoes ar gael, ewch i'r wefan https://storiaberhonddu.cymru

Os hoffech fod yn gysylltiedig â'r prosiect, cysylltwch â breconstory@gmail.com

Carreg Gresed y Gadeirlan

Mae'n siwr fod llawer ohonoch chi wedi sylwi ar y Garreg Gresed yng Nghadeirlan Aberhonddu. Carreg gyda 30 o dyllau ynddi yw hon, a'i diben oedd i oleuo'r eglwys, drwy roi gwêr a phabwyr yn y cwpanau. Mae'r gyfansoddwraig Hilary Tann wedi cyfansoddi darn llinynnol yn dwyn yr enw "Y Garreg Gresed", sydd yn fyfyrdod ar garreg a golau. Fis Rhagfyr diwethaf cafodd recordiad o'r darn ei wneud yn y Gadeirlan, lle'r oedd y feiolinydd Mary Hofman yn chwarae'r darn gerllaw'r garreg. Gyda chanhwyllau yn y cwpanau, a gweddill y Gadeirlan mewn tywyllwch, roedd naws arbennig i'r perfformiad. Mae'r recordiad wedi ei roi ar Facebook, Twitter ac Instagram.

Clwb Rygbi Aberhonddu

Mae Andrew Powell wedi ymddiswyddo fel hyfforddwr Clwb Rygbi Aberhonddu ar ôl sawl blwyddyn o wasanaeth. Cafwyd llwyddiant mawr yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda phrofiad Andrew yn profi'n werthfawr tu hwnt. Yr hyfforddwr newydd fydd Mathew Lewis, a phan fydd y clwb yn gallu ail-gychwyn hyfforddi a chwarae, dymunwn bob llwyddiant iddo fe a'r chwaraewyr i gyd.

## Llanddew

Coronafirws

Mae'r grŵp gwnïo, y grŵp gweddi a'r clwb llyfrau wedi cwrdd drwy Zoom yn ystod y cyfnod clo.

Profedigaethau:

Drwg gennym gofnodi sawl marwolaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ymestynnwn ein cydymdeimlad i Daphne a theulu Peta Powney, oedd wedi ymgartrefi yn Nhŷ Morgannwg ar ôl blynyddoedd hir yn Llanddew. Roedd Peta yn aelod Côr y Ffynnon a'r eglwys. Dathlodd hi ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Hydref.

Cydymdeimlwn hefyd â Robin a theulu Morag Jeffrey. Anfonwn gydymdeimlad hefyd i Debbie a theulu Delcie Davies, Felinfach. Cydymdeimlwn hefyd â Elwyn, Christine a theulu Peggy Price a oedd yn byw yn Oaklands.

Croeso:

Croeso cynnes i'r teuluoedd newydd sydd wedi ymgartrefi yma., Daisy a Andrew; Donna, Amelia a Harrison; Katherine a John, Martha, Bethia a Samson.

Eglwys Dewi Sant:

Cynhaliwyd oedfa ddydd Gwener y Groglith a Gwasanaeth Cymun Sul y Pasg drwy Zoom eto. Diolch i Emma a Bev am drefnu helfa wyau Pasg i'r plant. Diolch i bawb am eich cyfraniadau hael i'n rhodd Pasg.

Danfonodd Pentre Llanddew 142kg o fwyd a nwyddau ymolchi i Fanc Fwyd Aberhonddu.

Côr y Ffynnon:

Mae aelodau Côr y Ffynnon yn gweld eisiau eu hymarferion wythnosol yn arw. Anfonodd y côr rodd Nadolig o £150 i'r elusen Llamau, sy'n cefnogi pobl digartref a rhodd o £150 i Fanc Bwyd Aberhonddu.






## Y Clas-ar-Wy

**Ysgol Haf ar-lein i'r delyn**

Yn anffodus, â chalon drom rhaid oedd gohirio digwyddiad yr haf diwethaf a hynny yn sgil coronafeirws. Roedd yn siom a deimlwyd gan gyfranogwyr a gan y Celfyddydau yn y Clas-ar-Wy gan mai'r ysgol haf yw uchafbwynt y flwyddyn. Ers hynny, mae'r tîm, gan gynnwys tiwtoriaid ac ymddiriedolwyr yr Ysgol Haf wedi bod yn gweithio'n galed i drefnu ysgol haf ar-lein eleni a bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal rhwng 25 Awst a 28 Awst ar Zoom. Tiwtoriaid eleni fydd Eleanor Turner (Cyfarwyddwraig Cerdd yr Ysgol Haf i Delynau, Cerddoriaeth glasurol, gyfoes a byd-eang,) Gwenan Gibbard, (Cerddoriaeth draddodiadol a Chymreig a chantores,) Ailie Robertson (Cerddoriaeth Wyddelig, Albanaidd, gyfoes a chyfansodddwraig,) Adriano Sangineto (Cerddoriaeth gyfandirol, dawns draddodiadol a chyfansoddwr,) Manon Browning (Cerddoriaeth glasurol, gwerin a phoblogaidd,) Martha Powell (Cerddoriaeth glasurol, Geltaidd a phoblogaidd) ac Eleri Darkins ( Cerddoriaeth glasurol a Chymreig.)
Bydd yr Ysgol Haf yn cynnwys chwe grŵp: uwch (oedolion a'r arddegau;) canolradd (oedolion a'r arddegau;) dechreuwyr (o dan 18 oed;) oedolion sydd yn ddechreuwyr a myfyrwyr Telynau Gwernyfed mewn Ysgolion sydd newydd orffen blwyddyn gyntaf o ddysgu. Y tiwtoriaid ar gyfer y grwpiau hyn fydd Eleri Darkins a Martha Powell a bydd y tri grŵp cyntaf yn cael eu tiwtora gan Gwenan Gibbard, Ailie Robertson ac Adriano Sangineto. Bydd Eleanor Turner yn eu cynorthwyo a bydd Manon Browning yn cynorthwyo'r oedolion sydd yn ddechreuwyr.
Bydd tair sesiwn ddyddiol, dwy sesiwn ddyddiol ar gyfer myfyrwyr Telynau Gwernyfed mewn Ysgolion ac ar ddiwedd pob dydd, bydd pob grŵp yn dod ynghyd ar gyfer dosbarth meistr/perfformio a bydd modd i aelodau o'r cyhoedd brynu tocynnau. Archebu: ewch i glasburyarts.co.uk – cliciwch ar Telyn/Ysgol Haf 2021.
Er Cof Yn 2021, rydym yn cyflwyno'n Ysgol Haf ar gyfer y Delyn a'n Prosiect Telynau mewn Ysgolion er cof am dri hen gyfaill i'r Celfyddydau yn y Clas-ar-Wy a oedd yn ymroddedig i'r gweithgareddau ac a fu farw yn 2020 - Jeffrey Babb, Mike Harding a Bill Johnson.

Rhagor o wybodaeth gan John Fitzgerald:
john.fitzgerald@glasburyarts.co.uk neu 07967758804



Lluniau Uchaf: Martha Powell, Eleanor Turner. Gwaelod Chwith: Manon Browning
Canol: Ailie Robertson, Adriano Sangineto. Gwaelod: Gwenan Gibberd, Eleri Darkins

## Llanfihangel-Nant-Bran

**Neuadd Y Pentref:** Trwy arian o'r Loteri Genedlaethol mae Neuadd y Pentref wedi cael llawr, system fideo a sain newydd wedi gosod. Mae'r neuadd hefyd wedi cael ei pheintio.
Diolch i'r pwyllgor am drefnu hwn, mae nhw'n gyffrous i groeso pawb yn nôl yn fuan.
**Profedigaeth:** Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Howard Roderick, mab i David a Ray Pwllaca, bu farw ar y 16ain o Hydref 2020. Cydymdeimlad dwysaf i Kate, gwraig Howard, a'u merched Charlotte a Hannah.
Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Raymond Price o Maesllwydiart ym mis Mawrth 2021. Cydymdeimlad dwysaf i deulu Raymond.
**Genedigaethau:** Llongyfarchidau mawr i Nick ac Anya ar enedigaeth Noah Walter. Ganwyd mab Mary a Geraint yn mis Mawrth 2020; llongyfarchiadau mawr ar enedigaeth Ian Davies. Yn mis Awst 2020 ganwyd Hannah Astington, merch i Liz a Dai. Mae'r ddau yn wyrion i Buff a Maureen Phillips. Llongyfarchidau mawr i Andrew a Rose ar enedigaeth Ruby Rose Davies ym Mis Mawrth 2021. Ganwyd Cerys, merch Ashley a Claire yn mis Mawrth 2021, wyres i Marion ac i'r diweddar Cliff Phillips, Rhulan. Llongyfarchiadau i'r teuluoedd oll.
**Graddio Brifysgol:** Llongyfarchiadau mawr i Rhodri Thomas o Gyffog ar raddio fel doctor ym mis Mehefin 2020 o Brifysgol Birmingham. Llongyfarchiadau mawr i Delyth Thomas o Gyffog ar raddio yng Ngwyddorau Biolegol ym mis Mehefin 2020 o Brifysgol Birmingham. Dyminadau gorau iddynt i'r dyfodol.

## Pontsenni

Prin iawn yw'r newyddion o Bontsenni tro hyn, â phopeth ar stop!
Mae'r flwyddyn diwetha wedi bod yn gyfnod anodd i lawer, ond rydym yn cydymdeimlo'n arbennig gyda theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid; pob un yn gadael gwagle mawr ar eu haelwyd, yn y gwaith a'r gymuned.
Tra bod pandemig y coronafeirws wedi cael effaith dychrynllyd ar deuluoedd, mudiadau, busnesau a bywyd yn gyffredinol, mae'r genhedlaeth hŷn yn ein plith wrth gwrs yn cofio trychinebau eraill. 80 mlynedd i eleni, bomiwyd Abertawe. Dyma stori Gwyneth Williams o'r cyfnod pryderus a'i phrofiad hi o fod yn yr Ysbyty yn Abertawe ar y pryd. Mae'n werth ei ddarllen, a dwi'n siwr bydd ambell i chwaraewr chwist yn ein plith yn deall am y tro cyntaf beth yn wir ddigwyddodd i fysedd Gwyneth...

# Pontsenni (parhad)


*Doeddwn i ond 5 mlwydd oed pan gafodd Abertawe ei fomio amser y rhyfel. Roeddwn i yn yr ysbyty yno.*

*Roeddwn i yno oherwydd i mi gael damwain gartref ym Mhantcrafog, Llanddeusant, Sir Gar.*
*Dadi yn 'chaffo' i'r ceffylau, a mi a fy chwaer Tegwen yn chwarae yn y 'sgubor (lle na ddylwn i fod). A fi wrth gwrs yn dodi fy mysedd rhwng cogen fawr ac un fach oedd wrth ochor y peiriant, ac yna yn crio ar dadi i stopio. Roedd ef a'i gefn atom ni, ond fe wnaeth y gorau allai drwy droi y peiriant yn ôl ac wrth wneud hynny fe arbedodd un o'm bysedd pwysig.*
*Dadi yn rhedeg lawr drwy'r caeau at gymydog i ffonio'r meddyg, ac yntau'n byw yn Llangadog rhyw bum milltir i ffwrdd. (Doedd dim ffôn gyda ni gartref) Daeth Dr Lawson, a rhoddodd rwymyn am fy llaw i gael mynd i'r ysbyty y bore wedyn.*
*Cymdoges yn mynd a mam a fi i'r ysbyty yn Abertawe. Pan welsont gyflwr fy llaw fe ddywedon nhw wrth fy mam i fynd i chwilio pyjamas imi achos doeddwn i ddim yn cael mynd gartref gyda nhw. Roedd rhaid i mi sefyll yn yr ysbyty am ychydig. Ar ôl rhai dyddiau fe gafodd fy nhad neges i fynd lawr i siarad â'r meddygon yn yr ysbyty. Roeddent yn dweud wrth dadi falle bydde rhaid torri fy mraich i ffwrdd, ond roedd un meddyg yno (Sbaeneg) yn dweud bydde dim rhaid i mi golli fy mraich. Fe ddywedodd wrth y nyrsys i ofalu chwarae fy mysedd nôl a 'mlaen lawer gwaith y dydd ac roedd e'n siwr y buaswn i'n gwella'n iawn. Roedd hyn yn ryddhad mawr i fy nhad (fy llaw dde oedd hi).*
*Roedd cymdoges i ni yn dod â fy rhieni lawr unwaith neu ddwy yr wythnos. Rwy'n cofio'n dda roedd sgrîn yn cael ei osod o amgylch y gwely rhag i mi eu gweld. Un tro fe adnabyddes i het y gymdoges, roedd hi wastad yn gwisgo hetiau pert. Yno y bûm am bron i dair wythnos nes i mi wella digon i fynd nôl adref. Diolch i'r meddyg o Sbaen a'r nyrsys mae fy mraich yn iawn, dim ond ambell i fys yn llai na ddylse nhw fod!*
*Rwy'n cofio 'nhad a mam yn dweud na chysgo nhw lawer pan oedden ni yn yr ysbyty. Roeddynt yn gallu gweld yr awyr yn goleuo i fyny pan oedd y bomiau yn disgyn ar Abertawe.*
*Fel mae damweiniau yn gallu digwydd, ond dwi yma o hyd ac wedi medru gwneud dipyn bach o bopeth yn fy mywyd!*

Does neb a ŵyr beth sydd ar y gorwel, ond gobeithio wir bydd modd i bawb ddechrau cymdeithasu yn gyfforddus yn fuan iawn. Fe fydd yn braf cael adrodd hanes y Clwb Ffermwyr Ifanc lleol, y bowlio yn y Neuadd a'r Sioe Amaethyddol, i enwi dim ond ychydig o fudiadau sy'n awchu i ail gydio yn yr awennau! Gobeithio hefyd gawn ni heidio i Dregaron flwyddyn nesa i wylio Glyn Powell yn cael ei urddo gyda'r Wisg Las.

Fe ddaw eto haul ar fryn.

# Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Brynmor ac Alwen Davies, Llandrindod ar ddathlu eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar.
Wedi i'r ddau adael Ysgol Ramadeg Llanfair-ym-Muallt yn y 50'au aeth Brynmor i weithio ar Fferm Pant Howell yn Llanddeusant ac yn dilyn hyn i Fferm Y Lan, Gwynfe, tra aeth Alwen i wneud gwaith swyddfa mewn garej yn Llanfair-ym-Muallt.
Ym 1955 ymunodd Brynmor â'r fyddin a bu raid iddo fynd i Tripoli yng ngogledd Affrica. Pan ddaeth e adre adnewyddodd y ddau eu cyfeillgarwch ac ar 31ain o Fawrth 1961 fe briodon nhw yng nghapel Nasareth, Llangamarch gyda'r Parch Trefor Williams yn gwasanaethu.
Ar ddechrau eu bywyd priodasol ymgartrefon nhw yn 3 Barium Villas, Llangamarch gan symud i Lanwrtyd yn ddiweddarach. Bu Brynmor yn gweithio ar y rheilffordd am gyfnod ac yna yn y Ffatri Wlân yn Llanwrtyd cyn ymddeol a symud i Landrindod. Mae ganddynt dair o ferched – Alison, Mair a Faleri; dau wyr ac un wyres – Gareth, Ilan a Rhiannon.
Hoffai Brynmor ac Alwen ddiolch o galon i aelodau'r teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion, y cardiau a'r blodau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ddiemwnt.



# Newyddion

## *Cwmwysg a Threcastell*

Am gyfnod anodd y Covid 19, mae trigolion y fro wedi bod yn ofalus iawn, gan gadw yn ddiogel rhag y clefyd, ac yn falch iawn ein bod wedi arbed unrhyw achosion gwael o'r haint. Er hynny, yr ydym wedi cael y profiad blin o golli nifer o bobl yn gadael yr ardal yn ystod y Gaeaf, gwelir eu eisiau yn fawr iawn. O'r pentre bu farw Vincent Thomas gynt o Ynys Marchog, Elaine Jones, Maesyberllan a Sandra Hoskins, Crown House. Yng Nghwmwysg, ar ôl cyrraedd oedran mawr, daeth ddiwedd y daith i Ceridwen Davies, Alltyfan a Roy Adams Tai Capel ynghyd â Marc, Bron Havard. Hefyd, un a dreuliodd rhan helaeth o'i hoes yn Pantygrafog, sef Ceridwen Davies. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teuluoedd oll yn eu hiraeth a thristwch wrth golli annwyliaid.

Bu hefyd yn gyfnod o lawenydd cyn y Nadolig, wrth i Gari Davies, Meityisaf a Rhian Jones o Benycae ymuno mewn priodas. Cawsant ddiwrnod arbennig iawn gyda gwasanaeth hyfryd yn eglwys Ystradgynlais ac yna yng Ngwesty Penycae, y cyfan o fewn cyfyngiadau'r Covid. Pob bendith iddynt yn eu cartref yn Nhrecastell.

Llongyfarchiadau i Carwyn Pugh wrth iddo ymgymryd â swydd Cadeirydd Ffermwyr Ifainc sir Frycheiniog. Ef yw y cyntaf yn y Sir i ddilyn Wynne ei dad yn y swydd. Anrhydedd teilwng iawn i Carwyn, sydd wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn o glwb Trecastell, gyda llwyddiant mawr wrth farnu stoc, Drama ac Adloniant, gan serennu pan aeth y clwb ymlaen i ennill cystadleuaeth rhaglen adloniant ysgafn y Sir yng Nghymru. Dymuniadau gorau iddo wrth lywio'r mudiad drwy'r cyfnod mwyaf anodd yn ei hanes.

## *Crai*

Llongyfarchwn Sue a Wynne Davies, Chapel House, ar iddynt ddathlu eu pen-blwydd priodas Rhuddem ar Ebrill 18. Dymunwn ben-blwydd hapus i Gethin Williams, Gochgarreg yn 50 'nôl ym mis Ionawr, David Ross ar ei ben-blwydd yn 65 a hefyd i Elfed Hamer, Maescarnog, yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 ym mis Ebrill.

Hoffai'r Cyngor Cymunedol ddiolch i Mrs Anwen Roderick sydd yn gorffen fel clerc i'r Cyngor ar ôl sawl blwyddyn o wasanaeth. Croesawn Mrs Sue Harvey-Powell at y swydd.

PENCELLI CASTLE
Parc Carafanau a Gwersylla
Aberhonddu, Powys LD3 7LX
www.caravan-wales.co.uk
pencelli.castle@virgin.net
Tel: 01874 665451

Llongyfarchiadau mawr i Lydia a Richard Fergusson ar enedigaeth eu mab. Ganed Gryff ar Fawrth 8, yn frawd bach i Freya.

Danfonwn gyfarchion cynnes at Gwyn a Glenys Coedhowell a Beryl Pantmaes sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Braf yw nodi bod Eirlys Parry, Tynewydd, adref o'r ysbyty ac yn cryfhau.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r diweddar Mrs Ann Williams, gynt o Waunnewydd, Crai a fu'n ddirprwy yn Ysgol Pontsenni. Yn ddiweddar hefyd collodd y gymuned Mr Dyfrig Davies, Bedlwyncoch yn dilyn ei salwch hirdymor – bydd colled fawr ar ei ôl ef a'i ddiweddar wraig, Gaynor. Cofiwn hefyd am Hywel Jones, gynt o Dircapel - cydymdeimlwn â Helen, Keith, Lowri a Rhys a gweddill y teulu.

Yn ddiweddar roedd yn bleser gallu dathlu'r Pasg yng Nghapel Horeb, er bod y modd o gynnal gwasanaethau bach yn wahanol ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau, braf yw gallu dechrau dod at ein gilydd.

## *Llanfrynach*



Ysbryd y gymuned: daeth y gymuned ynghyd a dosbarthu newyddion a chefnogi pawb mewn angen yn ystod y flwyddyn anodd diwethaf. Sefydlodd grwpiau ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cadw mewn cysylltiad a rhoi gwybodaeth i bawb. Mae Llanfrynach ar 'Gweplyfr' a 'Whatsapp' bellach.

Elyrch y pentref:

Gwelwyd chwech o gywion alarch ar bwll Llanfrynach y llynedd. Bu'r elyrch sy'n arfer nythu ar y pwll bob blwyddyn yn brysur yn magu'u teulu bychain tan gadawon nhw'r nyth yn gynnar eleni.

## Talybont a Llangynidr

Yn ystod y cyfod clo mae'r pentrefi wedi bod yn dawel iawn gyda llawer o drigolion yn sylwi ar sut yr oedd yn eu hatgoffa o'u plentyndod. Trwy'r cyfnod clo rydyn ni wedi darganfod y gymuned hyfryd rydyn ni'n byw ynddi gyda phawb yn dod ynghyd i gefnogi ei gilydd. Sefydlwyd 'Siop Trwco Llyfrau' yng nghysgod yr arosfan, sydd wedi bod yn llwyddianus iawn gyda phobl y pentref a'r ymwelwyr. Sefydlwyd neuadd y pentref yn 1969 ac roedd dathliad hanner can mlynedd y neuadd wedi cael ei effeithio'n fawr gan reolau'r cyfnod clo. Yn lle dathliad mawr, rhoddwyd cyflwyniad bach a wnaeth pawb a oedd yno ei werthfawrogi.

Fel rhan o'r dathliad mae rhai pobl y pentref wedi sôn am eu hatgofion o Dalybont yn y gorffennol a'r presennol. Mae hwn ar gael ar CD neu ar-lein i unrhyw un i wrando ar nawr neu yn y dyfodol.

Mae Siop Siarad Talybont wedi symud dros dro ar 'Zoom' a mwy o aelodau wedi ymuno i ddysgu Cymraeg trwy'r cyfnod clo.  Mae Siop Siarad Talybont yn grŵp anffurfiol a chyfeillgar sy'n cwrdd bob bore Gwener 10.30 – 12.00. Mae croeso cynnes i Siaradwyr Cymraeg o bob safon i ymuno. Cysylltwch a Rhian (rhianyoung38@gmail.com)

Wrth i ni ddod i mewn i'r Gwanwyn mae'n hyfryd gweld bod llwybr y gamlas wedi cael ei uwchraddio o Bencelli i Langynidr. Mae'n fwy gyfleus i bobl sy'n awyddus i fynd am dro bach. Mae gwirfoleddwyr wedi plannu blodau gwyllt trwy'r pentref.

Mae llwybr Perllan Talybont yn dod ymlaen a gobeithio bydd afalau ar gael i bawb sydd eu hangen yn yr Hydref. Diolch i'r gwirfoleddwyr am wneud y gwaith!

Mae Talybont (Talybont Matters) a Llangynidr (Contact) yn argraffu llythyr newyddion lleol chwarterol. Mae nhw ar gael ar-lein neu yn siop Talybont a Llangynidr.

Gan Rhian Young a Maureen Probert

## Heol Senni

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Osian Lloyd, Caerdydd, sef, Catrin Morgan Neuadd gynt a Osian Lloyd o Ddinbych ar enedigaeth merch fach, Alaw Fflur ar Ionawr 12fed, 2021, ail wyres i Mr a Mrs Gethyn Morgan, Neuadd a thrydedd or=wyres i Mr a Mrs Gwyn Morgan Trephilip, Defynnog.

Llongyfarchiadau i Iwan Havard, Cwmbrynich sydd yn fyfyriwr Peirianneg ym Mhrifysgol Abertawe ar ei leoliad gyda chwmni Hydrox. Llongyfarchiadau hefyd i Beca Hiscocks, Cefnfedw ganol, sy wedi ei phenodi yn brif ferch blwyddyn unarddeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac i'w frawd, Dan ar chwarae ei gem rygbi cyntaf gyda tîm rygbi Cymru dan 20.

Daeth Sophie Jones yn ail yn yr unawd dan 19 yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc. Hefyd, hi oedd yn canu cân i'r bard buddugol dan gyfeiliant David Price, Defynnog.

Mae plant bach Senni wedi gwneud i bawb wenu trwy wneud darluniau o'r enfys a'u rhoi ar y bwrdd rhybydd o flaen y Neuadd. Rhoddwyd y wobr gyntaf i Llinos Jones, Cefnfedw isaf (8-11 oed), Daniel Jones, Bailea (dan 8 oed) a gwobrau hefyd i Abigail a Katelyn, Jones Bailea, Ffion a Catrin Jones, Tylebychan, Seren Jones Cefnfedw Isaf ag Anest Jones, Brychgoed. Diolch i'r beirniad Miss Elise Norgate.

Mae'n dda i glywed bod Liz Prosser llawer yn well ar ôl cwymp cas ar y fferm a dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Margaret, Janet, Gareth a Wyn a'u teuluoedd ar ôl colli tad, tadcu a hen dadcu annwyl iawn, sef y diweddar Mr.Owain Price, Maesydd ar Chwefror 4ydd.


Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Major (Retd) Bill Garnett, Aberhonddu, sef, Jane, Sarah, Billy, Yvonne, Peter a'u teuluoedd. Roedd y teulu wedi treulio llawer o amser yn Senni gyda'u mam, Myfanwy, yng Nghefnfedw ganol gyda'i mam a thad, Annie ac Ifor Powell tra roedd Bill i ffwrdd yn y fyddin.

## Clwb Llyfrau i Ddysgwyr

gan Lisa Jones

Bydd y clwb llyfrau wedi cwrdd pedair gwaith drwy Zoom eleni. Rydyn ni wedi trafod Cofio Anghofio (lefel Uwch) gan Alan Maley, Dysgu Byw (lefel Uwch) gan Sarah Reynolds, Am Ddiwrnod (lefel Mynediad) gan Margaret Johnson, a Cawl a Straeon Eraill (lefel Uwch) gan lawer o awduron adnabyddus.

Ein sesiwn olaf fydd nos Lun Mai 24 am 8 o'r gloch drwy Zoom eto. Byddwn ni'n trafod C'mon Reff gan Nigel Owens, sef llyfr ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd. Croeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lisa Jones.




**C'mon, Reff!**
**Stori Nigel Owens**
**Addasiad gan Elin Meek**

(i ddysgwyr lefel canolradd)

Nos Lun Mai 24ain drwy Zoom 8yh

***Croeso i bawb***

**Am fwy o wybodaeth: lij17@aber.ac.uk**

# Newyddion y Fenter Iaith

gan Tudur Rees

Pwy fyddai'n meddwl blwyddyn ymlaen byddai'r wlad dal o dan gyfyngiadau? Mae'r Fenter dal i barhau gyda'i waith ond wrth reswm ddim yn y ffordd chi wedi arfer ymwneud â hi! Ni'n colli gweld eich gwynebau a chael sgwrs ond yn gobeithio yn fawr fydd hyn yn bosib eto cyn hir. Yn y cyfamser mae tipyn yn digwydd ar-lein a gobeithio bod rhywbeth at ddant pawb - yr hen a'r ifanc, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr! Mae mwy o wybodaeth am yr isod i'w weld ar ein tudalen Facebook.

- Mae'r Clybiau Llyfrau dal i barhau i gwrdd yn fisol – ymunwch gyda ni!
- Gyda'r haul yn gwenu, beth am roi cynnig ar ychydig o ymarfer corff anarferol - mae Tudur Philips wedi rhoi gwers Clocsffit i ni (ar ein tudalen Facebook). Neu os ydych am fentro allan ar y beic i fwynhau golygfeydd ysblennydd yr ardal mae fideo gennym yn amlinellu Sgiliau Craidd Beicio Mynydd.
- Dewch â'r teulu ynghyd i fwynhau sesiynau hwyliog o ganu a dawnsio gyda Martyn Geraint.
- Yn olaf beth am ddysgu Cymraeg i'ch ci? Ddim yn meddwl fod hyn yn bosib – cymrwch olwg ar ein tudalen Facebook.

Mewn newyddion arall, mae'r Fenter wedi cefnogi comisiwn arbennig ar gyfer Côr Meibion Aberhonddu - gobeithio bydd modd clywed hwn mewn cyngerdd byw yn y dyfodol agos. Yn ogystal mae gwefan newydd ar y gweill... fydd mwy o wybodaeth yn Y Fan a'r Lle nesaf! Yn y cyfamser os oes gennych ddiddordeb yng ngwaith y Fenter neu os oes gennych brosiect hoffech i ni fod yn rhan ohono plîs cysylltwch gyda ni!

# Newyddion Urdd Brycheiniog a Maesyfed

Helo! Sinead ydw i a dwi'n ddigon lwcus i fod yn Swyddog Cymunedol yr Urdd i'r ardal ar hyn o bryd. Dwi'n byw ger Pontypridd yn y de ac er fy mod heb gael y cyfle i fynd allan a gwneud gweithgareddau yn ardal Brycheiniog a Maesyfed rydw i'n edrych ymlaen at y cyfnod nesaf yma gyda rheolau yn llacio a mwy o gyfle i weithio gydag ysgolion yr ardal. Dwi'n ddigon lwcus i fod yn edrych ar ôl yr ardal tra bod Rhiannon ar gyfnod mamolaeth wedi iddi gael bachgen bach o'r enw Macsen nôl ym mis Hydref, llongyfarchiadau mawr iddi a'i gŵr Ryan.

Mae tair mlynedd bron wedi mynd heibio ers i Eisteddfod yr Urdd cael ei chynnal yn ardal Brycheiniog a Maesyfed ac mae'r cyffro'n dal i fodoli yma. Hyd at blwyddyn diwethaf mae nifer o ysgolion yr ardal wedi bod yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau amrywiol boed yn chwaraeon, Eisteddfodau, teithiau tramor a llawer mwy.

Yn amlwg mae covid 19 wedi cael effaith mawr ar ein gwaith wyneb yn wyneb ond mae'r pandemig wedi'n galluogi ni i ddatblygu ein gweithgareddau digidol. Dros y cyfnod clo rydym wedi bod yn rhedeg amrywiaeth o weithgareddau ar-lein i bob oedran. Rydym wedi bod yn rhedeg yr Awr Fawr i blant cynradd Cymraeg a sesiwn ar wahân i ddysgwyr, Yr Awr Fwy i'r ddisgyblion uwchradd 11-15 oed a hefyd Y Sgwrs sydd yn trafod pob math o bynciau o wleidyddiaeth i gerddoriaeth Cymraeg. Mae cynrychiolaeth o'r ardal wedi bod ym mhob un o'r sesiynau sydd wedi bod yn hyfryd i weld. Mae'r Eisteddfod T ar fin digwydd unwaith eto ac mae'n braf gweld bod sawl person ifanc wedi cystadlu ynddo.

Os hoffech fwy o fanylion am weithgareddau yr Urdd yn yr ardal ewch draw i wefan yr Urdd.

# Papyrus - Iechyd Meddwl mewn Pandemig

gan Kate Heneghan

PAPYRUS
PREVENTION OF YOUNG SUICIDE

Dwy flynedd yn ôl deuthum yn bennaeth ar elusen yma yng Nghymru o'r enw PAPYRUS – Atal Hunanladdiad Ifanc (Prevention of Young Suicide). Sefydlwyd PAPYRUS 24 mlynedd yn ôl gan grŵp o rieni a gollodd blant yn drasig i hunanladdiad. Ystod oedran y plant hyn oedd 10 – 34 mlwydd oed a dyma ein ffocws hyd heddiw. Mae gan PAPYRUS linell gymorth o'r enw HOPELINEUK 0800 068 4141. Mae'r llinell gymorth ar gael i unrhyw berson ifanc sy'n brwydro gyda meddyliau am hunanladdiad a hefyd i unrhyw un sy'n poeni am berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd, gweithwyr iechyd proffesiynol ac athrawon ayyb. Mae PAPYRUS yn cynnig sgyrsiau am ddim i unrhyw grŵp ar ymwybyddiaeth atal hunanladdiad, yn ogystal â chynnig hyfforddiant. Ein nod yw creu cymunedau hunanladdiad mwy diogel. Gwyddom am y stigma am hunanladdiad sy'n bodoli yn ein cymunedau ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc estyn am gymorth. Mae ein hyfforddiant yn helpu i ddod i'r afael â'r stigma hwn ac yn helpu pobl i ddeall pwysigrwydd siarad am broblemau, a gofyn am help yn syth. Rydym i gyd wedi profi newidiadau yn ein bywydau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda rhai o dan fwy o bwysau nag eraill. Gall ceisio addasu ein bywydau wedi'r cyfnod clo a chodi'r cyfyngiadau ein rhoi o dan bwysau. Fel y dywed Charlie Mackesy: "*We often wait for kindness .... but being kind to yourself can start now*".

Felly, dyma i chi rai awgrymiadau ar sut i ofalu amdanoch eich hunan a chadw'n iach yn feddyliol. Ewch i https://www.papyrus-uk.org/ am adnoddau am ddim. Cysylltwch â : Cymru@papyrus-uk.org

PAPYRUS PREVENTION OF YOUNG SUICIDE

- Pob dydd ysgrifennwch 3 pheth rydych yn ddiolchgar ohonynt.
- Ewch i'ch gwely'n gynnar.
- Siaradwch am sut rydych yn teimlo.
- Cynlluniwch daith i edrych ymlaen ati.
- Rhowch gynnig ar 15 munud o fyfyrio.
- Ymlaciwch yn y bath.
- Byddwch yn greadigol - tynnu llun, peintio, gwnïo.
- Ewch allan i'r awyr agored.
- Tacluswch ychydig o'ch cwmpas.
- DAWNSIWCH!
- Gwnewch ymarferion anadlu dwfn.
- Peidiwch â bod ofn baeddu eich dwylo! Ewch i'r ardd a phlannu rhywbeth.
- Gwnewch rywbeth caredig ar hap.
- Dysgwch sgil newydd.

# Byd y Ffermwr

gan John Davies

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers cyflwyno cyfyngiadau Covid a bu nifer o achlysuron eraill dros y flwyddyn ddiwethaf. Llongyfarchiadau i griw Y Fan a'r Lle ar bum mlynedd ar hugain o fodolaeth, felly dyma feddwl y byddai'n beth braf cael cipolwg nôl i'r gorffennol a gwneud yn siwr ein bod yn dysgu o rai o wersi'r gorffennol.



Ar nodyn bersonol, fe wnaeth Mam a Dad ddathlu 70 o flynyddoedd priodasol ychydig cyn y Nadolig. Er roedd yn ddathliad hapus, cafwyd hefyd tristwch o golli fy chwaer hŷn Ann.

Yn anffodus oherwydd Covid, nid oedd yn bosibl dod at ein gilydd fel teulu, ond bydd y ddau'n dathlu penblwyddi'n 91 oed ym mis Mehefin felly gobeithio y cawn ddod at ein gilydd eto bryd hynny.

Mae Dad yn dweud yn aml na all amaethyddiaeth newid gymaint ag y mae wedi gwneud yn ystod ei oes ef. Mae'n cofio cario llwythi o wair o'r caeau a dorrwyd â phladur a'i droi â llaw gyda 5 erw'n cael eu lladd gan 3 dyn mewn diwrnod. Nawr mae'n bosibl lladd a chodi dros 100 erw mewn diwrnod. Mae'r gwaith o wasgar tail hefyd wedi newid o'r dyddiau o'i gludo gyda cheffyl a chert, ei roi mewn tomenni ac yna dod nôl i'w wasgar â llaw. Erbyn hyn mae modd gwasgar mwy mewn un llwyth mewn rhai munudau na gellid ei wneud mewn diwrnod. Ond er bod y technegau wedi newid yn aruthrol, mae'r tywydd yn dal i fod yn bos o ran sicrhau tymor wyna neu lloia llwyddiannus – ac mae hynny'n debygol o bara i'r dyfodol.

Mae llawer o drafodaeth am newid yn yr hinsawdd ond yma yng Nghymru, rwy'n credu ein bod ni mewn lle delfrydol i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, p'un ai'n gig coch neu gynnyrch llaeth. Ein ased allweddol ni yw porfa las naturiol a digonedd o law.

Mae'r gwaith diweddaraf a gomisiynwyd gan HCC ac a wnaed gan Brifysgolion Bangor a Limerick wedi profi bod ôl-troed carbon cig eidion a chig oen Cymru ymysg yr isaf yn y byd. Mae'n hanfodol bod polisiau amaethyddol y dyfodol yn cyfuno cynhyrchiant a'r amgylchedd mewn ffordd naturiol sy'n creu beth mae'r defnyddiwr modern ei eisiau – bwyd diogel, cynaliadwy ac iach.

Erbyn hyn byddwn yn gwybod canlyniad yr etholiad a bydd hwn o bwysigrwydd mawr i Gymru gyfan. Yma ar fferm Pentre, rydym wedi plannu miloedd o goed eleni mewn gwrychoedd newydd ac rydym hefyd wedi cyflwyno cais i blannu rhai erwau o'n tir serth felly rwy'n credu'n gryf mewn plannu'r goeden iawn yn y lle iawn. Dwi ddim yn cefnogi'r syniad o goedwigaeth gyffredinol fel sy'n cael ei gynnig gan rhai.

Brychan sydd wedi bod yn gyfrifol am yr wyna eleni gyda Menna a finnau'n canolbwyntio ar y lloia. Mae'r tywydd wedi bod yn eitha caredig sy'n golygu bod y ddau wedi mynd yn go lew. Mae'n braf gweld cylch bywyd yn dechrau eto yn y gwanwyn er byddai wedi bod yn dda gweld mwy o gawodydd Ebrill!

Mae'r Epynt yn agos iawn i'n calonnau ni ac ni ddylwn anghofio colli cymunedau, diwylliant ac iaith yr holl flynyddoedd yn ôl. Bydd gennym Aelod Senedd newydd gyda Kirsty'n rhoi'r gorau iddi. Rwy'n dymuno'n dda iddynt ac am ddiolch i Kirsty am ei gwaith caled a'i hymrwymiad i'w hetholwyr. Mae gen i deimlad y bydd y pum mlynedd nesaf yn dyngedfennol i'n cymunedau gwledig ni, i'n diwydiant a'n pobl ifanc. Rwy'n erfyn arnynt i beidio eu siomi.



# Newyddion yr Ieuenctid

## Clwb Rygbi Aberhonddu


*gan Ron Rowsell*



Trwy rai o'r cyfnodau tywyllaf mewn cof byw, roedd y prosiect noddi defaid yn fenter gadarnhaol.  Codwyd llawer o arian drwy noddi ac enwi'r defaid a'i  cneifio - y cyfanswm erbyn hyn yw £20,500!  Mae wedi dod â'r clwb a'r gymuned yn nes at ei gilydd er mwyn cefnogi gweithwyr iechyd rheng flaen hanfodol. Crynhodd ein cadeirydd, Paul Amphlett yn briodol i deimladau'r rhai dan sylw:

"Mae balchder bob amser wedi bod yn ein GIG, ond efallai nad ydym erioed wedi gwerthfawrogi mwy nag a wnawn yn awr yn yr argyfwng hwn. Rwy'n falch bod clwb rygbi Aberhonddu, mewn ffordd bendant,  wedi gallu rhoi ein cefnogaeth i'r gwasanaeth a'r unigolion sy'n gwneud aberth enfawr er mwyn ein cadw'n ddiogel. "

## Aelod Hŷn y Flwyddyn CFfI Cymru




Llongyfarchiadau enfawr i Siân Healey o glwb Pontfaen ar ennill cystadleuaeth Aelod Hŷn y Flwyddyn CFfI Cymru!

Mae'r flwyddyn diwetha wedi bod yn gyfnod anodd i lawer, ond rydym yn cydymdeimlo'n arbennig gyda theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid; pob un yn gadael gwagle mawr ar eu haelwyd, yn y gwaith a'r gymuned.

## CFfI Brycheiniog

*gan Elin Havard (Swyddog yr Iaith Gymraeg)*

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn dra wahanol, i ddweud y lleiaf. Ta waeth, ymateb yn bositif wnaeth y mudiad. Daeth y gweithgareddau rhithiol â phleser mawr i gynulleidfa eang, diolch i afael y cyfryngau cymdeithasol. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd y rali ym mis Mehefin. Derbyniwyd cannoedd o geisiadau a thra bod pob un ohonom yn gweld eisiau awyrgylch y sied, braf oedd gallu gweld gwaith y cystadleuwyr drwy Facebook. Pinacl y dydd oedd y gystadleuaeth dalent ac yn enwedig cais buddugol CFfI Pontsenni, sef criw o aelodau a chyn aelodau yn canu 'Hafan Gobaith'. Ry'n ni wedi dod i arfer â chanu o flaen y camera, bellach; a gwych oedd gweld nifer o aelodau yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Rithiol CFfI Cymru. Llongyfarchiadau yn enwedig i Leanne Davies, Clwb Troedrhiwdalar, a enillodd y llefaru i ddysgwyr; Sophie Jones (Brychgoed), Clwb Pontsenni, a ddaeth yn ail yn yr unawd iau; a Nia Havard, Clwb Pontsenni, a ddaeth yn drydydd yn y limerig.

Parhau i gefnogi eu cymunedau lleol wnaeth aelodau Brycheiniog. O fewn oriau o gyhoeddi'r cyfnod clo cyntaf, roedd sawl Clwb yn cynnig help llaw i drigolion gyda siopa bwyd neu gasglu moddion. Ymddangosodd ymgyrch Clwb Pontsenni ar raglen S4C 'Ffermwyr Ifanc yn Cicio'r Corona'. Nid dyna'r unig dro i'n haelodau ymddangos ar y teledu yn ystod y pandemig, chwaith. Efallai i rai ohonoch weld Sophie Jones (Aberbran) ar 'Ni yw'r Ffermwyr Ifanc' yn sôn am bwysigrwydd y mudiad iddi hi, fel menyw fusnes sydd wedi bod yn hynod brysur drwy'r cyfnod clo.

**B. JENKINS & Sons Ltd.**
Masnachwyr Deunyddiau Adeiladu
Am wasanaeth cyfeillgar a dibynadwy
Cysylltwch â ni ar:
**01874 622 853**
Melin Lifio'r Watton, Aberhonddu.

# Gwenoliaid yr Epynt

gan Bethan Hiscocks



Mae'n anodd credu bod bron i flwyddyn ers y Cofio; cofio am y troad allan o Fynydd Epynt yn 1940 a'r chwalfa a ddadleolodd 54 o aelwydydd. Fe ddiflannodd blwyddyn dan ein trwynau a honno'n flwyddyn heriol i'n cymunedau oll. Er bod y clo wedi llacio ychydig erbyn hyn, mawr oedd ein siom a'n tristwch ar y pryd na fedrwn ymgymryd â'r bererindod arferol i Fynydd Epynt. Ond gyda phob rhwystr daw cyfle a thrwy wyrth technoleg a chyd weithrediad Cymdeithas Y Cymod a'r Eisteddfod Genedlaethol, trodd y coffau hefyd yn ddathliad o'r hyn sy'n ein tynnu ni at ein gilydd a'n cyfannu ni fel cymdeithas a chenedl.

Trwy gyfryngau cymdeithasol a rhyfeddodau rhithiol roedd modd ymgysylltu â disgynyddion a ffrindiau'r Epynt hyd a lled Prydain a thu hwnt. Daeth cymuned newydd ynghyd ar dudalen facebook "Atgofion Epynt" a, diolch i ymgyrch Cofio Epynt gan Gymdeithas Y Cymod ar twitter, daeth Epynt i sylw cynulleidfa ehangach o lawer. Cafwyd rhaglen gyfoethog o ddigwyddiadau ar lwyfan rithiol yr Eisteddfod Gendlaethol [AmGen] gan gynnwys hanes Epynt trwy eiriau cyn drigolion a disgynyddion.



Cerdd Waldo Williams ddaeth yn ganolbwynt i ymgyrch "Cofio Epynt" Cymdeithas Y Cymod a honno'n gerdd sy'n ymwneud ag effaith militariaeth ar Gymru. Mae arwyddocad y gerdd yn amlwg wrth ystyried dyddiad ei chyhoeddi, sef 1939, y flwyddyn cafodd ffermwyr ardal Castell Martin eu troi allan pan hawliodd y fyddin 6,000 o erwau. Dewiswyd y gerdd hon nid yn unig fel symbol o'r troad allan o Epynt ond i gynrychioli tynged yr holl gymunedau coll a'r bobl sy'n cael eu dadleoli heddiw. Mae symboliaeth y wennol fach yn fwy o lawer na'i maint. Yn aderyn sy'n adnabyddus am ei dycnwch a'i ffydd, uwchben pob dim mae hi'n symbol o obaith – gobaith y daw yr haf wedi gaeaf hir ac heriol. Parch a gobaith oedd yn gyrru'r cofio yn 2020 – parch at yr hyn a fu a gobaith y daw adferiad i'n cymunedau wedi argyfwng y firws.

Un a gafodd ei hysbrydoli oedd yr artist a cherflunydd lleol Tanwen Wilkinson. Mae Tanwen yn byw gyda'i theulu yn Nolwar, Crai. A hithau wedi gweithredu dros heddwch ers blynyddoedd lawer, fe welodd Tanwen gyfle i roi llais nid yn unig i deuluoedd Epynt ond hefyd i'r holl bobl sy'n cael eu dadleoli heddiw. Mae Tanwen wedi creu nifer cyfyngedig o wenoliaid cwbl unigryw ac mae'n bleser cyhoeddi bod y gwenoliaid bellach ar gael i'w prynu a hynny trwy wefan Cymdeithas Y Cymod a Chymdeithas Yr Iaith Gymraeg. Mae Tanwen wedi creu gwenoliaid sy'n dwyn enwau godidog ffermydd Epynt ar eu hadennydd fydd o ddiddordeb mawr i ddisgynyddion y ffermydd rheini. Mae modd archebu gwennol sy'n hongian neu wennol ar stand yma: *https://cymdeithas.cymru/nwyddau/gwenoliaid*

Gol: Mae'r Epynt wedi cynnwys ym mron pob rhifyn o'r 'Fan a'r Lle' ac yn gofnod o fywyd a'r Gymraeg gan y trigolion gynt.

Fy enw i yw Tanwen Wilkinson. Rwy'n artist yn ardal Bannau Brycheiniog. Rwyf wedi defnyddio technegau hynafol adeiladu â llaw i greu dros 200 o wenoliaid; pob un yn unigryw.



Codais a thriniais glai o wely afonydd a nentydd Epynt a'i gymysgu â chlai ffatri. Mae'r gwenoliaid felly yn ymgorffori harddwch gwyllt a chalon tirlun Mynydd Epynt. Mae'r gwydredd raku crackle yn ein hatgoffa o blu neu wythiennau neu wreiddiau, neu efallai gwe fel ffyrdd ar fap. Gwnaed bon y cerflun o ddarnau wast llinynnau diwydiannol, miniog ac o hen ffenestri. Trodd y tywydd y ddraenen wen yn ddu ac yn igam-ogam o arw, yn debyg i fanadl llosg ar fynyddoedd sy'n mudlosgi, a'i dail wedi eu blingo gan greaduriaid.

Mae'r gwenoliaid, wrth ddal anadl y gwynt, yn chwibanu'r gobaith y cawn ni i gyd, ryw ddiwrnod, ddychwelyd i Fynydd Epynt. A'r dydd hwnnw, cawn gasglu ein gwenoliaid at ei gilydd a'u galw i ganu ar awel yr haf.

Clee
Clee, Tompkinson & Francis
Gwerthwyr Tai ac Arwerthwyr
13, Stryd Y Llew, Aberhonddu, LD3 7HY
01874 622488
brecon@ctf-uk.com
www.ctf-uk.com

J.L.Stephens
a'i Feibion
TALYBONT
Rhif ffôn: 01874 676268
"Adeiladwch ar sylfeini cadarn!"

# Cerddded yn y wlad

gan John Meurig

Yn ôl ym 1998 gofynnwyd i mi gan bwyllgor 'Y Fan a'r Lle' a fyddwn i'n barod i lunio darn am gerdded yn y wlad ar gyfer yr wythfed rhifyn o'r papur. A'r papur bellach wedi cyhoeddi 94 rhifyn, mae'r dyddiau hynny'n edrych yn bell iawn yn ôl! Ers y darn byr cyntaf hwnnw, ymddangosodd 76 colofn ar gerdded, gyda'r ola'n ymddangos yn Rhifyn 88. Teithiau cerdded penodol a geid yn y golofn fel rheol, ac rwy'n falch o un peth, sef fy mod wedi cerdded pob un o'r teithiau hynny o leiaf unwaith cyn ei chynnwys yn y golofn. Tipyn o gerdded mewn gwirionedd, ac mae nifer o'r teithiau'n rhai na fyddwn yn gallu ymgodymu â nhw bellach – 'henaint ni ddaw ei hunan'! Rw i wedi meddwl droeon tybed faint o ddarllenwyr 'Y Fan a'r Lle' a ddilynodd un o'r teithiau hyn ar ôl darllen amdani. Roedd rhai ohonynt yn sicr yn heriol, ond roedd yna hefyd deithiau cymharol hawdd a dymunol iawn. Ond pu'n a fuont o unrhyw gymorth i chi ai peidio, cefais i fwynhad mawr ar hyd y blynyddoedd yn eu paratoi a'u cerdded.

Rhyw golofn fach ddigon tila oedd yr un gyntaf honno. Paragraff oedd hi mewn gwirionedd, yn ceisio perswadio'r darllenwyr i droi allan i gerdded ac i brofi peth o'r mwyniant a geir yn yr awyr agored ac yng nghefn gwlad. Yn naturiol, a ninnau'n byw mewn ardal mor odidog, gyda llwybrau cerdded di-ri, roedd nifer helaeth o'r erthyglau yn canolbwyntio ar fro'r Bannau a'r Mynyddoedd Duon. Ac er bod nifer dda o lwybrau'r ardal yn llawer prysurach bellach, gyda thŵf yn y diddordeb o fynd allan i'r wlad i gerdded, mae swyn a hud y fro yn dal yno.

Mae'r pandemig Covid presennol yn dwyn i gof y golofn a luniais ar gyfer rhifyn Mai 2001, pan oedd clwy'r traed a'r genau'n rheibio'r ardal. Y rhan fwyaf o'r llwybrau ar gau am gyfnod hir, a dim ond hawl i gerdded ar lwybrau a ffyrdd oedd yn cadw'n glir o dir amaethyddol. Cyfnod diflas i gerddwyr yn ogystal wrth gwrs ag i'r amaethwyr a ddioddefodd gymaint bryd hynny.

Yn y golofn gyntaf honno, roeddwn yn canu clodydd llwybr y gamlas fel lle addas a hawdd i gerdded arno. Dros y flwyddyn ddiwethaf, ar y llwybr yma y ces i a channoedd eraill y cyfle i ymarfer tipyn drwy gerdded, seiclo neu fynd â'r ci am dro. A does gen i ond edmygedd a pharch at bobl yr ardal am y modd cyfrifol yr oeddynt yn ymddwyn ar adeg ddigon anodd, gan barchu'r rheolau a'r cyfyngiadau a roddwyd arnon ni. Fel yn achos y clwy traed a'r genau, fe ddaw amseroedd gwell, a gallwn gerdded ein hoff lwybrau'n ddilyffethair unwaith eto.



# Cymdeithas Gymraeg Aberhonddu

gan Mary Evans

'Hir pob aros' yw'r dywediad! Dal i aros mae aelodau Cymdeithas Gymraeg Aberhonddu i gyfarfod i drefnu rhaglen y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fel arfer mis Medi yw cychwyn y rhaglen newydd. Mae tua pumdeg wedi ymaelodi, nifer o rhain yn ddysgwyr, a bydd nifer o ffrindiau'r Gymdeithas yn ymuno am ginio neu drip mewn bws a gwerthfawrogir eu cefnogaeth a'u cwmni bob amser. Bu'n bosib iddynt ddathlu Dydd Gwyl Dewi y llynedd, pythefnos cyn y clo mawr! Cafwyd noson bleserus yng Ngwesty'r Castell yn gwledda yng nghwmni Bois y Castell Llandeilo a Sophie Jones o Senni. Daeth nifer o Lydawyr o Gouesnou, tref sydd wedi ei gefeillio ag Aberhonddu, i ymuno â nhw ar y noson.

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas wedi gweld nifer o newidiadau o ran man cyfarfod, yn y flwyddyn 1964 cyfarfu'r aelodau yn Hen Festri Capel Bethel yn y dref. Bu cyfnod pan fu'n cwrdd yn Coleg Howell Harris ger yr Ysgol Uwchradd, wedi hynny yn yr hen Ysgol y Bannau yn Llanfaes. Yr adeg honno roedd cyfarfod bob mis ond bellach cyfarfu bedair gwaith y flwyddyn. Byddant yn dathlu'r Nadolig dros ginio a chân neu ddwy. Mae dathlu dydd Gwyl Dewi yn noson boblogaidd pan gwahoddir artistiaid o bob rhan o Gymru i ddod i roi adloniant. Mis Mai trefnu'r trip ar gyfer yr aelodau, dyddiau i'w cofio yw rhain, megis trip i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Yn yr haf cynhelir Barbeciw yn Neuadd Llanddew. Estynnir croeso i aelodau newydd. Os hoffech ymuno, cysylltwch ag Eifiona Roberts ar 01874 623302 neu Nita Jones ar 01874 623936, ysgrifenyddion y Gymdeithas.

Bydd noson Barbeciw neu Noson Picnic (yn dibynnu ar y sefyllfa Covid a hefyd y tywydd) yn cael ei threfnu ar gyfer nos Wener Gorffennaf 9ed. Y bwriad yw cyfarfod am noson i groesawu aelodau newydd a hefyd i groesawu'n ôl yr hen aelodau. Byddwch yn derbyn e-bost ganol Mehefin i roi gwybod ichi ymhellach. Dewch yn llu!

# Cornel y Dysgwyr

gan Malcolm Llywelyn



Dysgwyr Brycheiniog yn cwrdd yn Egwlys Santes Fair
(Er cof am John Meredith yn y siwmper las)

Blwyddyn ar ôl sefydlodd Y Fan a'r Lle yn 1996 dechreuais i gyfrannu i'r papur yn rheolaidd.
Adrodd newyddion y pentref - Llanfrynach a wedyn dechrau'r tudalen 'Darn i Ddysgwyr'. Cychwyniad arall oedd sefydlu grŵp o ddysgwyr Cymraeg i gymdeithasu ac ymarfer y Gymraeg - Dysgwyr Brycheiniog. Mae'r grŵp wedi mynd o nerth i nerth cyn i ni orfod atal cwrdd dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Ond, mae aelodau'r grwp wedi cadw mewn cysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd ar 'Zoom'. Gan nad yw Dysgwyr Brycheiniog ddim yn cwrdd yn gymdeithasol dan yr amgylchiadau presennol,mae amryw o aelodau wedi ysgrifennu am eu profiad wrth ddysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

<u>Marion Oughton, sy'n byw yng Nghrai ger Ponsenni ers 2009</u>

Ges i fy ngeni yn Llundain ond ges i fy magu yn sir Efrog, achos symudodd y teulu yno pan o'n i'n 4 oed. Roedd yn well 'da fi dysgu ieithoedd yn yr ysgol uwchradd - Ffrangeg, Almaeneg a thipyn bach o Sbaeneg hefyd. Ar ôl gadael Prifysgol Caeredin, (ble dysgais i dipyn bach o Eidaleg a Daneg) Dw i'n dwlu ar ieithoedd ac am fy mod i'n byw yng Nghymru dechreuais i ddysgu Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn anodd diwetha, dw i wedi parhau i ddysgu Cymraeg. Yn lwcus, des i o hyd i gwrs ar-lein ble cwrddais i â thiwtor a chyd-ddysgwyr newydd. Mae hi'n brofiad newydd a diddorol i ddod i nabod bobl drwy fideo. Yn fy marn i, cyfleus ydy cwrsiau ar-lein: does dim angen arna i gyrru unman! Yn ddiweddar, mynychais i cwrs ar-lein canolfan Tŷ Newydd, am ddweud straeon yn Gymraeg. Dim ond awr oedd y cwrs yn anffodus: gwych oedd e. Dw i wedi bod yn siarad Cymraeg â ffrindiau ac â phobl lleol pan dyn ni'n cwrdd â'n gilydd ar siawns, yn ystod ein "ymarfer o'r tŷ" o gwmpas y cwm. Dw i wedi bod yn ysgrifennu tecstiau ac e-byst yn Gymraeg, yn darllen "Lingo", nofelau a storiau byrion am ddysgwyr, ac yn mynychu darlith Archif Menywod Cymru, Stori Stomp a Chlwb Stori Cymraeg – popeth ar-lein. Gobeithio y bydd cyrsiau, clybiau, darlithoedd ayyb yn parhau ar-lein yn y dyfodol: mae llawer o bobl sydd ddim yn gallu teithio neu sydd ddim eisiau teithio. A gobeithio y byddan ni'n cwrdd â'n gilydd eto, cyn bo hir.

<u>Nina a Jeff Thomas sy'n byw mewn hen dŷ fferm ar bwys Llyn Syfaddon yn Llanfihangel-Talyllyn</u>

Dechreuon ni ddysgu Cymraeg pryd roedd y plant yn ifanc, ond roedd rhaid i ni roi'r gorau am eu bod nhw mor brysur. Ond, yn nes ymlaen aethon ni i'r dafarn leol i ymuno a grŵp bach dysgu Cymraeg gydag athrawes leol cyn ymuno â dosbarth arall yn Llangors ac Aberhonddu. Dyn ni wedi bod yn dysgu am chwe mlynydd erbyn hyn. Mae Jeff yn dysgu gartref a dw i'n mynd i ddosbarth yn Y Fenni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf 'dyn ni wedi bod yn addurno'r tŷ a pharhau i siarad Cymraeg â'n gilydd ond na fu'n hawdd! Dyn ni wedi darllen tua deg nofel, ychydig o'r llyfrgell yn ogystal gan ffrindiau, Lingo Newydd hefyd. Bob wythnos 'dyn ni'n ymuno â grwp ar-lein i siarad ac ymarfer gyda 'Ssiw' a Duolingo, ysgrifennu e-byst at ffrindiau a gwylio 'Iaith ar Daith' a gwrando ar y newyddion ar y radio bob bore.

<u>Jean Llywelyn sy'n byw yn Llanfrynach ac yn ysgrifennu'r golofn rysáit yn Y Fan a'r Lle.</u>

Ar ôl y flwyddyn hir 2020 yn cysgodi rhag covid 19, fyddech chi'n meddwl bod fy Nghymraeg i wedi gwella tu hwnt.
Hoffwn i ddweud fy mod i wedi bod yn darllen, sgwennu ac yn siarad, ond dydy hon ddim yn gywir.

Ond, ailfeddwl am y flwyddyn ryfedd 2020, dwy wedi bod yn gwylio llawer o raglenni ar y teledu, gan gynnwys Prynhawn da, Garddio a mwy, Cynefin, Am Dro, Sgwrs dan Lloer, Heno. Hyd yn oed Pobl y Cwm - ac wrth gwrs unryw beth gydag Iolo.

Fe ges i ddau lyfr diddorol fel anrheg Nadolig hefyd.

Dwy i newydd orffen, 'Hen Bethau Anghofiedig' ac dwy i wedi dechrau '60'. Felly mae fy Nghymraeg yn gwella yn 2021 efallai. Er gwaethaf llawer iawn o eirfa anghyffredin, gallwn i ddeall y stori yn ddigon da.

Fyddwn i gymeradwyo 'Hen Bethau Anghofiedig' gan Mihangel Morgan - stori ysbryd da iawn.

Pob lwc i bawb sy'n dysgu Cymraeg, 'O bydded yr hen iaith parhau'.

Mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn obeithiol gyda chynllun gan Lywodraeth Cymru yn anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Cynllun uchelgeisiol, ond mae arwyddion yn argoeli'n dda gan fod yr iaith yn ffynnu'n arbennig yn ystod y flwyddyn anodd diwethaf. Mae'r cwrs ar lein 'Duolingo' wedi cyhoeddi fod 1.62 miliwn o bobl yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd sy'n cynnwys cynnydd o 100 mil ers Hydref 2020. Mae'r cwrs Cymraeg poblogaidd arall 'SaysomethinginWelsh' yn mynd o nerth i nerth gyda gweithgareddau ar gael ar lein ar hyn o bryd.

# Diferion Dyfri

Llyfr diddorol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw 'Diferion Dyfri', gan Handel Jones o Randirmwyn, ond yn wreiddiol o Drecastell. Detholiad sydd yma o "waith beirdd a rhigymwyr Llanymddyfri a'r Cylch dros y canrifoedd, ynghyd ag ychydig o wybodaeth am bob un – a llun pan fo hwnnw ar gael!" Mae yma hefyd enghreifftiau o waith rhai o arlunwyr a ffotograffwyr yr ardal. Er mwyn cefnogi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin y cyhoeddwyd y gyfrol, a phleser pur yw pori ynddi a gwerthfawrogi'r cynnwys hynod ddiddorol ac amrywiol.
Cyfrol werth ei phrynu -pris £20. (J M Edwards)

## CYFRANIAD BRYCHEINIOG I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR GAERFYRDDIN

gan Handel Jones

Mae gwaith sawl bardd ac arlunydd o Frycheiniog mewn cyfrol o farddoniaeth, paentiadau a ffotograffau a gafodd ei chyhoeddi i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr, a gynhelir yn Llanymddyfri yn 2023. Cafodd y gyfrol liwgar o 224 tudalen, Diferion Dyfri *, sy'n cynnwys mwy na 400 o benillion gan bron i 150 o feirdd a dwsinau o baentiadau a ffotograffau, ei golygu gan Handel Jones, brodor o Gwm-Wysg, a gafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Aberhonddu, yn ystod y 1950au. Ar ôl ymadael â'r ysgol, ymunodd â'r Carmarthen Times fel gohebydd a rhwng 1963 a 1983, bu'n gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd, cyn symud i Randir-mwyn, lle mae'n dal i fyw. "Pan gyhoeddwyd gyntaf y byddai Eisteddfod Genedlaethol Urdd yn ymweld â Llanymddyfri, rown i'n meddwl y byddai'n syniad da i gyhoeddi detholiad o farddoniaeth a gyfansoddwyd yn yr ardal ar hyd y canrifoedd," meddai Handel. "Roedd enwau fel y Ficer Rhys Prichard a William Williams, Pantycelyn, yn dod i'r meddwl ar unwaith. Felly hefyd enwau beirdd cyfoes, fel Arwyn Evans o Gynghordy, a fu'n Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu am nifer o flynyddoedd. Enillodd un o'i ddisgyblion chweched dosbarth, Twm Morys, Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2003."

Roedd dau o'r beirdd yn y flodeugerdd, sef y brodyr Aeron a Tom Davies, yn ffermio yn ardal Trecastell, ac yn ystod ei ymchwil, darganfu Handel emyn gan eu tad, William Davies. Roedd Danny a Jeffrey Davies yn frodyr a oedd yn ffermio ym Mlaenau Wysg, ac roedd trydydd brawd, Willie, yn fwy adnabyddus wrth ei enw barddol Wil Dyfan.

Cyfansoddodd Thomas Elias (Y Bardd Coch), a oedd yn weinidog yn Llangamarch, fwy na 250 o emynau, a dywedir iddo groesi'r Epynt 2,000 o weithiau i bregethu mewn capeli ledled Cymru. Bu farw ym 1855 a chladdwyd ef ym Mhentre'r felin, ger Pontsenni.

Bu John Thomas, a anwyd ym Myddfai ym 1730, yn weinidog yn Rhaeadr Gwy am bron i 30 mlynedd. Cyfansoddodd 200 o emynau a sawl llyfr, gan gynnwys Rhad Ras, sef yr hunangofiant cyntaf yn Gymraeg.

Roedd John Thomas arall (1839–1921) yn cadw'r Swyddfa Bost yn Llanwrtyd. Er ei fod yn fardd medrus, fe'i cofir orau am ei emyn donau, gan gynnwys 'Blaenycefn', 'Aberporth' a 'Cymod'.


Bugail a brodor o Abergwesyn oedd Edward Lewis, a adwaenid mewn cylchoedd barddol fel Iorwerth Camarch. Enillodd sawl gwobr am ei gerddi, gan gynnwys y gadair yn Eisteddfod Llanwrtyd yn 1926.

Roedd Jeffrey Jones (Ab Cilydd), a aned yn Llywel, yn argraffydd yn Llanymddyfri, a fu farw yn 24 oed. Ychydig cyn ei farwolaeth yn 1830, cyfansoddodd farwnad hir i'r Parch. John Williams, mab William Williams , Pantycelyn.

Enillodd Gwilym Ceri Jones (1897–1963), gweinidog yn Llanwrtyd yng nghanol y 1930au, Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1955. Roedd ei fab, Hywel Ceri Jones, yn bennaeth Cyfadran Cyflogaeth a Pholisi Cymdeithasol y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel.

Ymhlith yr arlunwyr â'u gweithiau yn Diferion Dyfri, mae Aneurin Jones (1930-2017), brodor o Cwm-Wysg sydd â phaentiadau yng nghasgliad cyhoeddus Llyfrgell Genedlaethol Cymru a sawl casgliad dramor. Dau arlunydd arall yw T.J.L. Davies, a aned yng Nghwm-Wysg, a Marilyn Evans, a fu'n dysgu mewn sawl ysgol gynradd yn ardal Aberhonddu.

**Gol: Diolch o galon am eich cyfraniad helaeth i'r papur, Handel.**




* Diferion Dyfri, wedi'i olygu gan Handel Jones.
Cyhoeddwyd gan Wasg Llech Ddu.
Pris: £20 + £2.70 post a phecyn.
Cyswllt: Dai Dyer ar 01550 720 956/07977 913 637

# Newyddion yr Ysgolion

## Ysgol Gyfun Ystalyfera

gan Abigail Jones

Fy enw i yw Abigail a dwi'n byw ar fferm Bailea ger Heol Senni, sy'n agos i Aberhonddu. Dwi'n 12 mlwydd oed ac mae gen i un chwaer ac un brawd sy'n iau na fi. Es i i Ysgol Gynradd Pontsenni a nawr dwi'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera ym Mlwyddyn 8. Dwi'n hoffi chwarae pêl rwyd a dwi'n aelod o glwb yr ysgol a Beacons Netball. Dwi'n hoff iawn o goginio cacennau, yn enwedig cacennau penblwydd i bobl yn fy nheulu. Dwi hefyd yn aelod o CFfI Pontsenni . Mae "Covid-19" a'r cyfnod clo wedi bod yn brofiad gwahanol iawn. Doedden ni ddim wedi gallu gweld teulu a ffrindiau na mynd i lefydd bydden ni pe bai dim pandemig ond dwi wedi ffeindio ffyrdd o addasu a chael hwyl. Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera wedi addasu yn dda iawn i'r pandemig a'r cyfnod clo ac wedi cael pawb ar Microsoft "Teams" cyn y cyfnod clo cyntaf . Yn y cyfnod clo cyntaf roedd yr ysgol wedi rhoi gwaith lan i ni gwblhau cyn diwedd y dydd. Roedd angen i ni gwblhau 6 tasg gwahanol, un am bob pwnc. Weithiau roedd y Pennaeth Blwyddyn wedi cynnal cyfarfod i roi gwybodaeth bwysig neu siarad â rhieni. Roedd y cyfarfodydd yn galed iawn i ymuno â nhw oherwydd doedd gennym ni ddim rhyngrwyd cryf ac roedd angen i ni fynd i'r layby gyda 4G i wrando ar y cyfarfod Felly, yn y gwyliau haf gwnaethon ni uwchraddio'r we a ches i gliniadur newydd i Nadolig.

Yn yr ail gyfnod clo, roedd yr ysgol wedi penderfynu gwneud gwersi byw ar Microsoft "Teams". Doedd dim llawer o blant ac athrawon yn gwybod sut i ddefnyddio'r botwm "mute", y camera na sut i rannu eu sgrîn ar y dechrau. Gyda gwersi byw, roedden ni'n cysylltu a chymdeithasu gyda phobl ychydig yn fwy. Roedd angen i ni fewngofnodi i bob cyfarfod yn brydlon a chael cinio ac egwyl ar amseroedd penodol. Roedd rhaid i'r teulu weithio o gwmpas fy amserlen.



Roedd rhai athrawon wedi dechrau defnyddio 'breakout rooms' sef ardal ar "Teams" sy'n rhoi y gallu i ti rannu'r dosbarth i mewn i grwpiau i weithio. Roedd hynny yn syniad da ac roeddwn i'n hoffi eu defnyddio. Roedd e'n rhoi y gallu i ni weithio mewn grŵp a chymdeithasu gyda ffrindiau a phobl eraill yn fy nosbarth. Roeddwn i'n gweithio'n fwy caled gartref oherwydd doedd dim byd yn tynnu fy sylw.

Roedd yr ysgol wedi cynnal Eisteddfod Rithiol lle roedd pawb yn cystadlu am bwyntiau i'r llys, (Llys Gwenllian ydw i). Roedd llawer o gystadlaethau a gwnes i gystadlu mewn cystadleuaeth coginio. Roedd 3 dewis i'r coginio, naill ai gwneud pice ar y maen am 5 pwynt, cawl am 10 pwynt neu gacen Dydd Gwyl Dewi am 15 pwynt. Gwnes i bob un felly enillais i 30 pwynt i Lys Gwenllian). Llys Gwenllian enillodd yr Eisteddfod!!!

Dwi wedi bod yn lwcus yn ystod "Covid-19" a'r cyfnod clo oherwydd dwi wedi cael llawer o brofiadau da ac mae wedi bod yn eitha hwylus i fi. Dwi'n lwcus iawn fy mod i'n byw ar fferm ac mae llawer o le mas tu fas i chwarae. Dwi wedi bod yn chwarae gyda fy mrawd a chwaer ar y trampolîn, siglen a'r beiciau. Mae'r cyfnod clo wedi rhoi cyfleoedd i fi i gerdded o gwmpas y cwm, gweld mwy o fy ardal leol a threulio mwy o amser gartref gyda fy nheulu a fy anifeiliaid. Ar ôl 12 mis o "Covid 19" a'r pandemig, dwi'n edrych ymlaen at fynd nôl i Ysgol Gymraeg Ystalyfera a gweld fy ffrindiau (ond ddim ar Zoom!) a threulio amser gyda gweddill fy nheulu yn yr haf.

## Ysgol Uwchradd Gwernyfed



Llongyfarchiadau i'r bedair merch yma o Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Maen nhw wedi ennill cystadleuaeth cenedlaethol GCHQ. Gwnaethon nhw weithgareddau grŵp ac unigolyn ar y cyfrifiadur dros y cyfnod clo. Nawr, byddan nhw'n cynrychioli Cymru yn y rownd derfynol fawreddog, ar 26ain Ebrill 2021. Pob lwc i Seren McNaughton-Davies, Rhiana Linfoot, Edith May & Rebecca Benoy!

## Newyddion yr Ysgolion

# Ysgol Uwchradd Aberhonddu

gan Beca Hiscocks

Mae gwaith y disgyblion yn parhau o gartref. Rhwng cyfarfodydd ar Teams bob wythnos gyda Mrs Price, mae'r Criw Cymraeg wedi sefydlu cyfrif Instagram a Twitter newydd lle bûm yn rhannu tasgau wythnosol, cymorth addysgiadol a dywediadau positif. Maent wedi derbyn llawer o gefnogaeth oddi wrth enwogion Cymru yn eu hymgyrch i godi calonnau ac annog eraill i ddyfalbarhau ac aros gartref. Braint oedd derbyn cerdd wych gan Mererid Hopwood yn canmol y disgyblion yn eu gwaith, mae diolch mawr yn mynd at Mererid am gefnogi ein hymgyrch a chymryd amser yn creu darn mor arbennig yn benodol i'r ysgol. Mae diolch hefyd yn mynd at Lisa Marged, Shane Williams, Sam Warburton, Scott Williams, Tafis Noyle, Aneirin Karadog, Eurig Salisbury a Dyfan Rees am eu negesuon fideo. Mae pob un werth eu gweld. Braint oedd hefyd i dderbyn darn o farddoniaeth hyfryd gan Ruby, athrawes ac arlunydd o Abertawe. Geiriau grymus, nerthol a chalonogol sydd yn adlewyrchu y gwerthfawrogiad sydd gan bawb tuag at staff ein hysgolion. Mae staff a disgyblion wedi gweld newid sylweddol i fywyd addysgol a chartref. Ond fel y disgwyl mae disgyblion, staff a rhieni wedi ymateb i'r her ac wedi bod yn cyd-weithio yn arbennig er mwyn parhau i ddarparu gofal, addysg a chymorth i deuluoedd yr ardal.




Mae'r papur bro wedi cynnwys enillwyr y gadair yn Ysgol y Bannau dros y blynyddoedd. Eleni enillodd Tristan Thomas y gadair gyda'i waith cyfieithu blog am fywyd T Llew Jones.
Eirlys Non Jones oedd y beirniad a rhoddodd feirniadaeth i Flwyddyn 6 a chyhoeddodd y canlyniadau'n fyw ar TEAMS ar brynhawn yr Eisteddfod.






# Ysgol y Bannau




Ysgol y Bannau yn dysgu yn yr awyr agored fel rhan o gyfyngiadau Cofid 19. Lwcus iawn i gael sesiwn sgwrsio gyda'r awdur a bardd, Owen Sheers. Roedd llwyth o gwestiynau diddorol wrth y plant am ei fywyd fel awdur.

# Ysgol Pontsenni

Dychwelyd i'r Ysgol Hyfryd oedd gweld y disgyblion i gyd yn dychwelyd i'r ysgol ychydig cyn Gwyliau'r Pasg a braf oedd cael Teulu Ysgol Pontsenni nol gyda'i gilydd unwaith eto.

Dymuniadau Penblwydd Mrs Fergusson Ychydig cyn Gwyliau'r Pasg fe wnaeth Mrs Andrena Fergusson ein cogyddes ysgol ddathlu penblwydd arbennig. Ymunodd pawb yn yr ysgol i ddymuno penblwydd hapus iawn iddi.

Llongyfarchiadau Mawr Fe ddanfonwn ni ein llongyfarchiadau mwyaf at Lydia a Richard Fergusson ar enedigaeth eu mab bach Gryff Richard John. Mae Lydia yn gweithio yn y Cylch Meithrin yn yr ysgol.

# *Newyddion yr Ysgolion*



## Ysgol Pontsenni (parhad)

<u>Diolch i Mr T. Glyn Powell, Glansenni</u>

Mae pawb yn yr ysgol yn hynod o ddiolchgar i Mr T. Glyn Powell, Glansenni am ei holl waith ac ymdrechion yn casglu a chrynhoi hanes yr ysgol i ni. Mae'r hanes wedi bod yn hynod o ddiddorol wir! Diolch i Mr Powell am gofnodi yr hanes yma ac am y nifer o luniau wnaeth e roi i'r ysgol, yn enwedig y rhai o gyfnod Yr Ail Ryfel Byd. Bydd yr hyn a gasglodd Mr Powell yn cael ei rannu gyda'r disgyblion a byddwn yn creu arddangosfa yn yr ysgol o'r lluniau a hanes sefydlu'r ysgol er mwyn i ymwelwyr gweld a mwynhau. Diolch hefyd i Archifdy Powys ac yn enwedig i Elizabeth Orr am eu cefnogaeth.

<u>Gair arall o ddiolch</u>

Llawer o ddiolch i'r Arwerthwr Clee Tomkinson a Francis a phwyllgor y farchnad am adael i rieni a ffrindiau'r ysgol i barcio yn y farchnad da byw yn ystod amseroedd gollwng a chodi plant ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Diolch yn fawr iddynt.

<u>Menter Newydd Cyffrous yn yr ysgol – Sain Senni</u>

Cyn bo hir rydyn ni'n gobeithio lansio gorsaf radio o fewn yr ysgol. Y disgyblion bydd yn cymryd llawer o gyfrifoldeb am redeg yr orsaf radio yma. Mae'r fenter newydd yma yn gyfle i ni ehangu ein defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol ac i ddathlu Iaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn ein cymuned ysgol. Bydd mwy am Orsaf Radio Ysgol Pontsenni – Sain Senni yn y rhifyn nesaf o'r Fan a'r Lle. .

<u>Arwyddion Cymraeg Newydd</u>

Wrth i ymwelwyr ymweld ag ardaloedd allanol yr ysgol fe fydden nhw'n gweld bod nifer o arwyddion Cymraeg lliwgar wedi cael eu rhoi lan o gwmpas yr ysgol. Un o dargedau yr ysgol ar gyfer Y Siarter Iaith a Chymraeg Campus oedd i osod murluniau ac arwyddion Cymraeg o gwmpas yr ysgol er mwyn annog mwy o ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac i siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Diolch yn fawr hefyd i Mrs Watts a nifer o ddisgyblion am beintio'r baner Croeso sydd lan wrth brif fynedfa'r ysgol. Mae Criw Cymraeg yr ysgol yn helpu arwain y Siarter Iaith ac mae gan y criw nifer o syniadau cyffrous ar y gweill. Felly, cadwch mewn cysylltiad a chadw llygaid mas ar gyfer rhai digwyddiadau a gwybodaeth cyffrous i ddod cyn hir!

## Ysgol Calon Cymru

Mae wedi bod yn bleser ers mis Ionawr gallu croesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol wedi sawl mis o ddysgu ar-lein. Mae ein disgyblion wedi bod yn brysur dros ben yn ystod y cyfnod clo, yn cynnwys cystadleuaeth cynllunio cartref i drychfilod, cystadleuaeth bobi Pasg a gweithgareddau lles – a'r rheini ar ben eu gwersi bob dydd!

Yn ôl ym mis Ionawr, gwnaeth ddisgyblion o Gampws Llanfair gais i ddod yn Llysgenhadon Lles. Yn dilyn cyfweliadau, dewiswyd naw ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y rôl ac maent wedi bod yn brysur iawn ers hynny yn cynnig gwelliannau ar gyfer eu cyfoedion.

Ar Fawrth 21 cafodd ddisgyblion Cymraeg Ail Iaith, blwyddyn 12 e-sgol yr anrhydedd o glywed am yrfa ysbrydoledig Cynhyrchydd Sain, Simon Fraser. Enillodd Simon BAFTA Cymru am ei waith ar y ffilm Patagonia. Roedd hi'n sesiwn diddorol iawn yn dysgu am agweddau gwahanol y broses a phobl sy'n creu ffilm a'r pwysigrwydd a chyfleoedd gall siarad Cymraeg cynnig yn y diwydiant.

Ar Fawrth 25 cafodd rhai o'n disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy gyda'r nod o ddatblygu gweledigaeth disgyblion tuag at y Cwricwlwm Newydd. Roedd eu hymateb a'u syniadau ynghylch dysgu a'r siwrnai y dylem ei chymryd tuag at y Cwricwlwm Newydd yn wych – diolch iddynt am eu cyfraniadau!

'Nôl ym mis Ionawr, penodwyd Mrs Lorraine Davies a Mrs Bethan Price yn gyd-arweinwyr y Gymraeg ar draws yr ysgol.

Braf yw cyhoeddi hefyd bod Corff Llywodraethu Ysgol Calon Cymru wedi penodi'r Dr Richard Jones yn bennaeth parhaol. Mae wedi bod yn bennaeth dros dro yn yr ysgol ers Ionawr 2020. Llongyfarchiadau gwresog iddo!



Mae 'Y Fan a'r Lle' wedi dathlu llwyddiant pobl ifanc y fro o'r dechrau, felly dyma hanes



**Nia Evans Roberts** (merch Gruff ac Eifiona)

Cwympais mewn cariad gyda'r syniad o fod yn actores yn Theatr y Guildhall yn Aberhonddu. Roedd Dad a Mam yn aelodau brwdfrydig o'r cwmni theatr amaturiaid lleol, Brecon Little Theatre. Yn chwe mlwydd oed ges i'r cyfle cyntaf i fod ar y llwyfan mewn cynhyrchiad o'r sioe gerddorol "Scrooge" gyda'r holl deulu yn cymryd rhan. Fi, Mam a fy chwiorydd ar y llwyfan a Dad yn chwarae'r piano. Y'n nhad oedd Gruff Roberts, a fe sefydlodd y papur "Y Fan a'r Lle" nôl yn 1996. Roedd fy rhieni yn hoff iawn o gymryd rhan ym mywyd creadigol y dref, bu hynny drwy canu yn y côr, yn hyfforddi plant i gystadlu yn yr Eisteddfod neu cymryd rhan mewn amryw o sioeau a chyngherddau gyda Brecon Little Theatre neu'r Gymdeithas Gymraeg.
Bu fy mam, Eifiona, yn adrodd detholiadiau o "Dan y Wenallt" gan Dylan Thomos sawl gwaith mewn cyngherddau trwy gydol fy mhlentyntod. Roedd y penderfyniad i fod yn actores yn gynhenid felly a ches i ddim byd ond cefnogaeth gan Dad a Mam i ddilyn fy mreuddwyd.

Yn 11 mlwydd oed ddaeth y cyfle i gymeryd rhan mewn drama teledu. Roedd y BBC yn mynd o gwmpas ysgolion yn ne Cymru i edrych am fachgen a merch i chwarae brawd a chwaer mewn drama o'r enw "The Farm." Bu'r cwmni Jackanory yn gwneud cyfres o ddramau yn ymwneud â phlant oedd yn ymafael â phroblemau wrth dyfu i fyny. Yn ein stori ni, y ferch oedd am gymeryd drosodd y fferm yn hytrach na'r mab a hwn oedd yn peri gofid i'r rhieni. Mae'r syniad yma braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn ond rwy'n sôn am yr 80'au cynnar! Ar ôl dau clyweliad fe ges i'r rhan a dyma fi ar y ffordd i Lundain i saethu yn Stiwdios Elstree am bythefnos cyn dod nôl i Gymru i saethu am wythnos ar leoliad. Roedd yn brofiad a wnaeth selio fy awydd o fod yn actores. Roedd y wefr o fod ar set deledu proffesiynol mor gyffrous â bod ar lwyfan. Gaethon ni gymaint o hwyl hefyd yn cael ein dangos o gwympas gweddill stiwdios Elstree yn ymweld a rhaglennu fel 'Grange Hill,' 'Blue Peter,' 'Doctor Who' a 'Top of the Pops.' Ar ôl sawl cynhyrchiad arall gyda Brecon Little Theatre wnes i ennill lle ar gwrs drama Theatr Genedlaethol Cymru. Fan hyn ges i'r cyfle i ddysgu mwy am grefft y theatr trwy gynhyrchiad gerddorol Cymraeg "Melltith ar y Nyth" a'r drama "No Birds Sing." Yna, ymlaen i'r Brifysgol yn Birmingham i wneud gradd Drama am dair mlynedd cyn symud i Lundain. Yn y 90au canol roedd S4C yn gwneud cynhychiadau mawr a ches i'r fraint o fod yn rhan o rhai ohonyn nhw gan gynnwys 'Y Palmant Aur,' a 'Halen yn y Gwaed.' Drwy fod yn rhan o'r rhain daeth y galwad ffôn gan gyfarwyddwr castio yn Llundain i fynd lan am glyweliad ar gyfer y ffilm "Solomon a Gaenor." Wnaeth ennill y rhan yn y ffilm yma agor nifer o ddrysau arall i mi yn enwedig ar ôl iddo gael ei enwebu am Oscar. Wnes i barahau i weithio yng Nghymru ac ennill y wobr BAFTA am yr actores orau am y ffilm 'Lois.' Ond hefyd ddaeth y cyfle i wneud mwy o waith ar ddramau teledu rhwydwaith gan gynnwys 'Score,' 'Outside the Rules, 'Border Cafe' a 'Doctor Who.' Ges i hefyd y cyfle i fynd i Dsecoslofacia i wneud ffilm Eidalaiddd gyda Gabriel Byrne a Peter Vaughan.

Wrth imi gyrraedd fy 30au ddaeth yr awydd a'r cyfle i ddychwelyd i'r theatr yn ol. Wnes i sawl cynhyrchiad yng Nghaerdydd, ar daith ac hefyd yn Llundain. Roedd y profiad o weithio gyda Daniel Evans (sydd nawr yn rhedeg y Chichester Festival Theatre) yn aros yn y cof. O dan ei gyfarwyddid wnaethon ni "Esther' gan Saunders Lewis i Theatr Genedlaethol Cymru a "Lovely Evening" i'r Young Vic yn Llundain.

Ar ol priodi'r cyfarwyddwr Marc Evans yn 2006 rydyn wedi llwyddo gweithio gyda'n gilydd tair neu bedair gwaith. Y prosiect sydd yn agos iawn i'r galon yw'r ffim 'Patagonia.' Bu Dad a Mam yn dysgu Cymraeg yn Y Wladfa yn y 90au a mae fy chwaer Eleri wedi priodi Archentwr ac yn byw ym Mhatagonia gyda'i theulu ers 25 mlynedd bellach. Roedd Marc a finne yn awyddus iawn i greu stori a oedd wedi'i leoli yn Y Wladfa a ddaeth popeth at ei gilydd pan roedd ein merch Edith yn flwydd oed. Wrth lwc roedd Mam a Dad ar gael i ddod allan gyda ni i'r Ariannin i edrych ar ei hôl hi.

Rwy'n teimlo'n hynod o lwcus i fod wedi gallu gwneud gyrfa o fod yn actores ond wrth gwrs dwi wedi derbyn cryn dipyn o wrthodiadau hefyd! Mae e'n rhan o'r swydd ac er fy mod wedi datblygu croen trwchus dros y blynyddoedd mae cael gwrthodiad dal yn gallu brifo weithiau. Dwi dal wrthi ac mi fyddai wrthi mor hir a maen nhw'n gadael fi neu tan bo fi methu symud neu gofio fy llinellau mwyach!

Cyn y cyfnod clo cyntaf roeddwn ar fin dechrau ymarferion ar gyfer "An Enemy of the People" gan Ibsen yn y Sherman yng Nghaerdydd. Mae drysau'r theatr dal ar gau yn anffodus ond yn croesu bysedd byddwn yn gallu ail gydio ynddo cyn hir. Yn ystod yr ail cyfnod clo wnes i saethu cyfres ar gyfer S4C. Rwy'n chwarae'r brif ran yn "Yr Amgueddfa" a fydd yn ymddangos ar S4C ym mis Mai.

Diolch i bawb sy wedi cyfrannu. Bydd rhan 2 o ddathlu ein penblwydd 25 allan ym mis Medi.

ebost@yfanarlle.cymru